



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

 © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol xxxxxxxx

Teitl: Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill
(ESOL) yng Nghymru

Is-deitl: Adroddiad Terfynol drafft

Awdur(on): Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru a Phrifysgol De
Cymru

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o
angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Michelle Roberts

Is-adran: Is-adran Cymunedau Cydlynus

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 3822

E-bost: michelle.roberts011@gov.wales



Caiff y prosiect Integreiddio Mudol Cymru ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The Migrant Integration Wales project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigyrau.....	2
1. Cyflwyniad/Cefndir	3
2. Methodoleg	6
3. Adolygiad Cyflym	7
4. Crynodebau o ymatebion i'r arolwg	9
5. Canfyddiadau	11
6. Casgliadau ac Argymhellion: Blaenoriaethau Gweithredu.....	49
7. Cyfeiriadau	59
8. Atodiad A – Dadansoddiad o arolwg darparwyr ar-lein	60
9. Atodiad B – Dadansoddiad o arolwg ar-lein ymarferwyr.....	69
10. Atodiad C – Dadansoddiad o arolwg ar-lein dysgwyr.....	74
11. Atodiad D – Adroddiad mapio'r ddarpariaeth ESOL bresennol	77
12. Atodiad E - Cwestiynau arolwg Darparwr, Ymarferwyr a Dysgwyr.....	113

Rhestr o dablau

Tabl 8.1 – Ymatebion arolwg yn ôl ardal awdurdod lleol.....	60
Tabl 8.2 – Gwasanaethau Cefnogi Arbenigol y mae'r ddarpariaeth ESOL yn gysylltiedig â nhw.....	666
Tabl 9.1 – Y ddarpariaeth ESOL a ddarperir ar hyn o bryd.....	711

Rhestr o ffigyrau

Ffigwr 8.1 – Lefelau'r Ddarpariaeth ESOL	622
--	-----

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Rhyddhawyd [polisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill \(ESOL\)](#) diweddaraf Llywodraeth Cymru yn 2018 a'i ddiweddarau yn Nhachwedd 2019. Mae cael mynediad at ddosbarthiadau ESOL effeithiol yn bwysig iawn er mwyn integreiddio pobl sy'n mudo i Gymru. Felly, mae cynnal polisi cyfredol a pherthnasol yn bwysig i sicrhau'r deilliannau gorau iddynt.
- 1.2 Ar 29 Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cenedl Noddfa](#) Mae'r Cynllun yn cynnwys ystod o weithredodd traws-lywodraethol i wella deilliannau i ffoaduriaid a phobl yn ceisio lloches yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys cam i hyrwyddo sgiliau hanfodol i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches i wella rhagolygon cyflogadwyedd, cynhwysedd a chydlynid cymdeithasol. Mae ESOL yn parhau yn un o'r blaenoriaethau allweddol i'r ddarpariaeth addysgu i oedolion yng Nghymru. Nid yw polisiâu lloches a mudo wedi eu datganoli; ond, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am nifer o feysydd polisi sy'n ganolog i integreiddio pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn llwyddiannus, gan gynnwys addysg ac iechyd. Wrth ddefnyddio'r gwasanaethau cyhoeddus hyn, mae darparu dosbarthiadau ESOL i bobl sy'n ceisio noddfa nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg yn hanfodol i sicrhau deilliannau gwell i'r unigolion yma, galluogi integreiddio, datblygu sgiliau a chyflogadwyedd.
- 1.3 Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid hyd 31 Mawrth 2023 ar gyfer cyflawni Reach+ (Hybiau Canolog Asesu ESOL Rhanbarthol). Mae'r hybiau yma'n gweithredu fel man cyswllt canolog i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio ESOL yn y dinasoedd hyn trwy asesu eu hanghenion ESOL a chyfeirio at y ddarpariaeth ESOL fwyaf addas. Maent hefyd yn gweithredu fel siop un stop i ffoaduriaid gael mynediad at gronfa ehangach o gyngor a chefnogaeth trwy'r prosiect¹ AilGychwyn.
- 1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil o'r blaen i fylchau a chyfleoedd i ffoaduriaid yn y farchnad lafur trwy'r adroddiad "AilGychwyn: Integreiddio

¹ Mae'r prosiect AilGychwyn yn cefnogi Ffoaduriaid i integreiddio i Gymru trwy roi cyrsiau ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) wedi eu hachredu, a chefnogaeth cyflogadwyedd.

Ffoaduriaid, Cyfleoedd Ymgysylltu â Chyflogwyr” (2020). Un o argymhellion allweddol yr ymchwil hwn yw:

‘Adolygu pa mor effeithiol mae’r camau gweithredu a’r arfer da a nodwyd yn y polisi presennol ESOL yng Nghymru mewn perthynas â mynediad at ddarpariaeth ESOL ffurfiol (gan gynnwys ESOL+² ac ESOL at ddibenion penodol, fel pasio’r prawf gyrru), a chymorth i gael gafael ar gyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau iaith mewn lleoliadau anffurfiol a chymdeithasol, fel Cyfeillion a Chymdogion (FAN) sy’n cynnal grwpiau i ddatblygu Saesneg sgwrsio), wedi’u gweithredu.’

- 1.5 Mae ymchwil arall yn cynnwys [“An Investigation into the Barriers to Education and Employment for Forced Migrants in the Convergence Areas of Wales”](#) (Chick a Hannagan Lewis 2020), sy’n amlygu’r angen am roi cynnig ar fodolau darparu newydd lle mae’r dysgwyr yn cael mwy o rym i ddilyn llwybrau integreiddio sydd â chysylltiad gwell â’u hanghenion, gallu a disgwyladau. Mae’r ymchwil yn tynnu sylw at werth ffurfiau mwy cyfranogol o addysg iaith y gellid eu darparu ochr yn ochr neu fel rhan o ddarpariaeth fwy confensiynol.
- 1.6 Ym mis Chwefror 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru’r Sefydliad Dysgu a Gwaith, ar y cyd â Phrifysgol De Cymru, i adolygu’r polisi ESOL yng Nghymru. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Chwefror a Gorffennaf 2022 gyda’r nod o asesu argaeledd a digonolrwydd y ddarpariaeth ESOL yng Nghymru yn ogystal â gwneud argymhellion am welliannau dichonol, ar sail tystiolaeth.

Nodau ac Amcanion

Nodau ac amcanion yr ymchwil oedd:

- 1.7 Cynhyrchu map manwl o’r ddarpariaeth ESOL gyfredol yng Nghymru.
- 1.8 Pennu pa mor dda y mae’r ddarpariaeth ESOL ffurfiol yng Nghymru yn cynnig cefnogaeth ddigonol ac amserol i ddysgwyr, gan gynnwys asesiad o:
- Beth sy’n gweithio’n dda wrth ddarparu ESOL ac ESOL+ yng Nghymru, a pha fylchau sy’n bodoli yn y ddarpariaeth.

² Dyfarniadau galwedigaethol yw ESOL+ fel trin gwallt neu arlwygo i baratoi dysgwyr ESOL yn well i symud ar gyrsiau galwedigaethol prif-ffrwd neu i waith.

- Pa heriau/rhwystrau a/neu hwyluswyr sy'n bodoli yn y ddarpariaeth ESOL yng Nghymru.
- Pa mor dda y mae'r ddarpariaeth ESOL yn cynnig cefnogaeth ddigonol ac amserol i'r rhai sy'n ddarostyngedig i statws mewnfudo amrywiol, y rhai sy'n wynebu bregrusrwydd penodol, a'r rhai sydd tu allan i'r dinasoedd gwasgaru.
- A yw'r mathau o ddarpariaeth ESOL yng Nghymru yn ddigonol o ran eu hansawdd, priodoledd, argaeledd, a'u hyblygrwydd.
- Effaith dysgu o bell ac allgauedd digidol ar fynediad at ddarpariaeth ESOL.
- Y graddau y mae ffurfiau mwy anffurfiol, cyfranogol o ddysgu yn cefnogi anghenion iaith gwirioneddol oedolion a orfodwyd i fudo.
- Sut y mae cynnydd a deilliannau dysgwyr ESOL, a'u nodweddion demograffig, yn cael eu monitro a'u mesur dros amser a sut y gall data dienw gael ei rannu er mwyn cael tryloywder ac atebolrwydd.
- A yw darparwyr ESOL yn datblygu darpariaeth ESOL i gefnogi pobl i waith (neu gadw gwaith) a sut y mae'r ddarpariaeth ESOL yn cyd-fynd â hyfforddiant galwedigaethol.
- A yw darparwyr ESOL yn datblygu darpariaeth ESOL ar gyfer dibenion penodol eraill, fel ymgyswrtu â chymuned neu i gefnogi llwyddo mewn prawf gyrru.
- Y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgu Cymraeg yn ogystal â, neu yn lle Saesneg pan fydd yn addas, a'r nifer sy'n dewis y ddarpariaeth Gymraeg.
- Lle mae'r nifer sy'n dewis y ddarpariaeth ddysgu Cymraeg yn uchel neu'n isel, casglu'r rhesymau am yr amrywiadau.
- A yw'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth ESOL yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl i gyflawni'r effeithiolrwydd a'r deilliannau mwyaf posibl.
- Swyddogaeth Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Sefydliadau, a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus wrth ddarparu arweiniad strategol a chydlynu i sicrhau darpariaeth ESOL ddigonol, o safon uchel yng Nghymru.

1.9 Pennu a oes digon o fynediad at gyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau iaith mewn lleoliadau anffurfiol a chymdeithasol, fel Cyfeillion a Chymdogion (FAN) sy'n cynnal grwpiau i ddatblygu Saesneg neu Gymraeg sgwrsio, ac a yw partneriaethau rhwng darparwyr ESOL ffurfiol a Hybiau a darparwyr ESOL anffurfiol yn effeithiol.

- 1.10 Cynnig camau gweithredu/argymhellion hyfyw, ar sail tystiolaeth ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol a allai wella'r ddarpariaeth ESOL yng Nghymru ac ymdrin â'r bylchau a ddynodwyd yn yr adolygiad hwn.

2. Methodoleg

Amlinellir methodoleg yr adolygiad isod.

Cam 1: Cwmpasu

- 2.1 Adolygiad byr cyflym o lenyddiaeth a'r data nodau dysgu ESOL a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Cam 2: Darpariaeth ESOL

- 2.2 **Arolwg ar-lein** i ddarparwyr ESOL (ffurfiol ac anffurfiol), ymarferwyr a dysgwyr, i gasglu data ar ble a sut y mae ESOL yn cael ei ddarparu ac i roi dealltwriaeth o'r materion a ddynodwyd yn nodau/amcanion yr ymchwil. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod Ebrill a Mai 2022. Cynhaliwyd cynllun treialu ar y cwestiynau cychwynnol yn Ebrill 2022 gyda'r ymatebion yn arwain at adolygiad a diwygio'r arolwg cyn ei ddsbarthu'n ehangach. Gellir gweld cwestiynau'r arolwg yn Atodiad E.
- 2.3 Dosbarthwyd yr arolygon i dros 150 o sefydliadau ledled Cymru gan gynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg gymunedol i oedolion, awdurdodau lleol, sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol, a sefydliadau trydydd sector. Gellir gweld y dadansoddiad llawn o'r ymatebion gan ddarparwyr yn Atodiad A, gyda'r dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r arolygon ymarferwyr a dysgwyr ar gael yn Atodiadau B a C, yn eu tro.
- 2.4 Cyflawnwyd pedwar fforwm ar-lein ym Mehefin 2022 i gasglu dealltwriaeth gan ddarparwyr ESOL (ffurfiol ac anffurfiol), sefydliadau oedd yn ymwneud â chefnogaeth ehangach a dysgwyr. Roedd cynrychiolwyr o 24 o sefydliadau a 10 o ddysgwyr i gyd yn bresennol.
- 2.5 Cynhaliwyd cyfweiliadau wedi eu strwythuro'n rhannol yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2022 yn bersonol ac ar-lein gyda'r rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â darparu neu gefnogi ESOL. Rhoddwyd cyfweiliadau i gynrychiolwyr o 14 o sefydliadau i gyd.

- 2.6 Cynhaliwyd deuddeng grŵp ffocws ar-lein/yn bersonol gydag athrawon, dysgwyr a rheolwyr o 10 sefydliad sy'n darparu darpariaeth ESOL ffurfiol ac anffurfiol rhwng Mai a Mehefin 2022.

Gwerth ychwanegol

- 2.7 Yn ychwanegol at yr uchod, casglwyd llais y dysgwyr mewn ffilm fer o [ddysgwyr ESOL \(mudwyr a cheiswyr lloches\)](#) yn adlewyrchu profiadau'r rhai sydd yn cael, sydd wedi cael, a'r rhai sy'n aros am gael mynediad at ddarpariaeth ffurfiol. Cynhyrchwyd a golygwyd gan Ysgol Newyddiaduriaeth Prifysgol De Cymru.

3. Adolygiad Cyflym

Cynhaliwyd adolygiad byr cyflym i gadarnhau ac amlygu meysydd i'w harchwilio ymhellach a dynodi arfer effeithiol.

- 3.1 Mae cyfrifo'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r ddarpariaeth ESOL yn heriol. Ond, mae *Polisi ESOL i Gymru* (2014) Llywodraeth Cymru yn nodi, yn 2011/12 bod dros 7,000 o bobl wedi cofrestru mewn colegau addysg bellach yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf o'r dysgwyr ar lefel mynediad 3 neu is. Yn ychwanegol at y ffigur hwn, yn flynyddol mae dros 2,000 o bobl yn cofrestru ar ddsbarth ESOL rhan-amser gyda Dysgu Oedolion Cymru. Felly, rhwng y 2 brif ddarparwr ESOL hyn, gellir casglu bod tua 10,000 o bobl yn flynyddol yn cymryd rhan mewn addysg ESOL yng Nghymru. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys niferoedd sy'n mynychu darpariaeth ESOL anffurfiol a ddarperir gan grwpiau elusennol/trydydd sector, ar sail ffydd a chymunedol.
- 3.2 Mae gan Gymru 4 prif ddinas wasgaru, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, (sydd hefyd yn ganolfannau ar gyfer y prosiect REACH) sydd, rhyngddynt yn darparu'r mwyafrif llethol o ddsbarthiadau ESOL. Ond, mae gan bob ardal yng Nghymru boblogaeth o fudwyr ac mae'r holl awdurdodau lleol wedi cymryd rhan yng nghynlluniau adsefydlu ffoaduriaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Oherwydd bod y ddarpariaeth wedi cael ei symud ar-lein oherwydd COVID-19 mae llawer mwy o ymwybyddiaeth yn awr o bosibiliadau dysgu digidol – a all helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau mynediad a gofnodwyd o'r blaen yn yr ymchwil. Mae gan

y Swyddfa Gartref gynlluniau i ehangu'r gwasgaru ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.

- 3.3 Mae adroddiadau a dogfennau polisi diweddar gan Lywodraeth Cymru yn dynodi ESOL fel elfen allweddol wrth hyrwyddo cynhwysiant ac integreiddio mudwyr yng Nghymru. Mae Polisi ESOL Cymru (2018), y Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019) a'r adroddiad Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2017) yn pwysleisio pwysigrwydd darparu addysg iaith brydlon, addas yn cael ei chyflwyno gan athrawon gyda chymwysterau da. Fodd bynnag, mae trefniadau ESOL yn gymhleth ac mae ymchwil dros y ddau ddegawd diwethaf yn dangos themâu cyson y mae angen ymdrin â nhw. Rhai enghreifftiau o'r heriau a ddynodwyd oedd diffyg yn y dosbarthiadau ar rai lefelau gan arwain at amseroedd aros maith (Rees, A 2010; Williams 2017; Chick 2017), diffyg athrawon â chymwysterau addas, ynghyd ag amodau gwaith llai na delfrydol (Rees 2010; Chick 2019) a bod angen gwell cydweithio rhwng darparwyr ffurfiol ac anffurfiol (Furlong a Hunt 2009; Rees 2010; Chick a Hannagan-Lewis 2019).
- 3.4 Mae'r adroddiad mapio diweddaraf ar gyfer ESOL yng Nghymru, yn cadarnhau llawer o'r materion hyn. Daw'r adroddiad i'r casgliad nad yw'r seilwaith ESOL mewn sawl rhan o Gymru wedi datblygu digon i fodloni anghenion mudwyr. Canfu mai ychydig o ardaloedd nad ydynt yn y prif ddinasoedd sy'n gallu darparu rhaglen foddhaol o Saesneg ac mae'n amlygu bod diffyg cyllid ar gyfer cyfleusterau crèche yn atal mwy o fenywod rhag mynd i ddosbarthiadau. Mae'r rhan allweddol sydd gan y sector wirfoddol hefyd yn cael sylw yn yr adroddiad. I lawer o bobl gall dosbarthiadau ESOL roi mannau cymdeithasol, hanfodol, heb bwysau sy'n dod â phobl at ei gilydd. I fudwyr o'r fath, nid yn unig mae ESOL yn offeryn y mae arnynt ei angen i gael gwaith ond mae hefyd yn gyfle i ddysgu Saesneg i allu ymdopi'n well â'u bywydau dyddiol a chyfarfyddiadau cymdeithasol a thrwy hynny eu hymdeimlad o gael eu cynnwys ac o berthyn.
- 3.5 Cynhaliwyd adolygiad o'r data ESOL a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru fel rhan o'r cam cwmpasu. Dengys y data a gasglwyd y nifer o weithgareddau dysgu ESOL ffurfiol a gychwynwyd yn 2020/21. Cychwynwyd 4,795 o weithgareddau dysgu ESOL yn 2020/21. I'r gweithgareddau

dysgu hynny oedd yn dal yn weithredol ar ôl 8 wythnos roedd cyfradd gwblhau o 85% (3,855) ac o'r cymwysterau a gwblhawyd roedd 74% (2,855) wedi eu cyflawni'n llwyddiannus.

- 3.6 Cychwynnwyd 3,385 o weithgareddau dysgu ESOL yn 2020/21 ar lefel Mynediad, gyda chyfradd gwblhau o 84% (2,675) ac roedd 77% (2,060) yn llwyddiannus wrth gael y cymhwyster.
- 3.7 Cychwynnwyd 875 o weithgareddau dysgu ESOL yn 2020/21 ar Lefel 1, gyda chyfradd gwblhau o 85% (705) ac roedd 66% (465) yn llwyddiannus wrth gael y cymhwyster.
- 3.8 Cychwynnwyd 535 o weithgareddau dysgu ESOL yn 2020/21 ar Lefel 2, gyda chyfradd gwblhau o 93% (480) ac roedd 68% (330) yn llwyddiannus wrth gael y cymhwyster. Gellir gweld manylion y ffigyrau hyn yn ôl Awdurdod Lleol yn Atodiad D.

4. Crynodebau o ymatebion i'r arolwg

Crynodeb o'r arolwg darparwyr

- 4.1 Cynhaliwyd arolwg i ddarparwyr ar-lein yn ystod Ebrill a Mai 2022 gyda darparwyr ffurfiol ac anffurfiol.
- 4.2 Ymatebodd dau ar hugain o ddarparwyr i'r arolwg, yn cynrychioli 20 o sefydliadau gwahanol sydd yn ardal 15 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Daeth mwyafrif yr ymatebion gan sefydliadau Addysg Bellach (10) ac awdurdodau lleol (7).

Crynodeb o'r arolwg ymarferwyr

- 4.3 Cynhaliwyd arolwg ymarferwyr ar-lein yn ystod Ebrill a Mai 2022.
- 4.4 Ymatebodd pumdeg un o ymarferwyr i'r arolwg, yn cynrychioli 22 o sefydliadau gwahanol ar draws 13 awdurdod lleol yn cynnwys Abertawe, Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Torfaen, a Wrecsam.
- 4.5 Roedd 23 o'r ymatebion gan ymarferwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach (AB). Roedd chwe ymarferwr o awdurdodau lleol. Roedd pedwar ymarferwr o'r Trydydd

Sector sy'n cael ei ariannu a naw o'r Trydydd Sector gwirfoddol. Roedd y gweddill yn anhysbys.

Crynodeb o'r arolwg dysgwyr

- 4.6 Cwblhaodd un ar hugain o ddysgwyr yr arolwg. Mae 17 o'r dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng 25 a 55 oed, roedd 17 yn dynodi eu bod yn fenywod, ac roedd 17 hunaniaeth genedlaethol yn cael eu cynrychioli. Roedd 18 o'r dysgwyr yn ddi-waith, gyda chwech â dyletswyddau gofal plant
- 4.7 Roedd tri ar ddeg o'r dysgwyr a ymatebodd yn astudio darpariaeth ESOL ran-amser ac wyth yn astudio darpariaeth ESOL lawn amser.
- 4.8 Roedd mwyafrif y dysgwyr a ymatebodd (15) yn astudio darpariaeth Fynediad Lefel 3 neu cyn-ganolradd. Roedd un dysgwr yn astudio Lefel Mynediad 2³ neu ddechreuwr uwch ac roedd dau ddysgwr yr un yn astudio darpariaeth Lefel Mynediad 1 a chyn mynediad. Nid oedd unrhyw ddysgwyr a ymatebodd oedd yn astudio lefelau 1 neu 2.

³ Gall cymwysterau ESOL gael eu hennill ar: Lefelau MYNEDIAD 1, 2, 3 a Lefelau 1 a 2

5. Canfyddiadau

- 5.1 Mae adran ganlynol yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r prif themâu a'r canfyddiadau ansoddol o'r data a gasglwyd trwy'r arolygon ar-lein, y grwpiau ffocws, y fforymau ar-lein a chyfweliadau rhanddeiliaid a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol ESOL, dysgwyr ESOL, arweinwyr trydydd sector a rhanddeiliaid eraill.

“Mae ESOL yn rhoi cyfle i mi fod yn greadigol a chysylltu â phobl sydd wedi mynd trwy amgylchiadau bywyd anodd.” (tiwtor coleg ESOL)

Cyllid a Seilwaith

Cyllid

“Ar hyn o bryd, nid yw dysgwr yn gadael y cwrs ac yn mynd i swydd yn cael ei weld fel canlyniad positif.” (rheolwr coleg ESOL)

- 5.2 Yn y rhan fwyaf o drafodaethau a gynhaliwyd gyda thiwtoriaid a rheolwyr mewn lleoliadau coleg ffurfiol, soniodd y rhai a gymerodd ran am bryderon am y ffordd y mae'r ddarpariaeth ESOL yn cael ei hariannu. Yn gyffredinol, yr anfodlonrwydd ar y peirianwaith presennol yw bod ESOL yn cael ei drin yn yr un ffordd â phynciau eraill. Daeth dau brif bwynt i'r amlwg o ran pam bod angen ymdrin â hyn. Yn gyntaf, bod demograffeg y myfyrwyr ESOL yn wahanol iawn i gohortau eraill ac yn ail, bod y defnydd o iaith, a sut y mae'n cael ei dysgu, asesu, a'i haddysgu yn wahanol iawn i bynciau eraill.
- 5.3 Oherwydd y ffordd y mae'r peirianwaith cyllido presennol ar gyfer ESOL yn gweithredu, roedd llawer o'r ymatebwyr yn cofnodi bod gorfod dangos cynnydd yn gofyn am ormod o amser yn y dosbarth. Yn ychwanegol, mae datblygu'r maes llafur yn cael ei ganolbwyntio ar baratoi at asesu a dywedodd yr ymatebwyr bod y gofynion yma'n ddiangen ac o ychydig iawn o fudd addysgol. Mae hyn yn golygu bod gan y darparwyr hynny sydd wedi eu clymu wrth faes llafur am resymau cyllidol lawer llai o hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion heb eu cynllunio (er enghraifft, argyfwng ffoaduriaid Wcráin). Datgelodd yr adborth gan rai rheolwyr coleg ESOL bod rhestrau aros maith yn dod i'r amlwg o ran cael lleoliad i'r rhai sy'n cyrraedd o'r

newydd, gan nad yw ymuno â dosbarth sydd wedi bod yn paratoi at asesiad yn ddichonol yn aml.

- 5.4 Nid yn unig mae'r peirianwaith cyllido yn ymddangos fel pe bai yn gwneud llenwi cyrsiau yn anodd, ond cofnodwyd hefyd bod myfyrwyr ESOL, yn amlach na chohortau eraill o fyfyrwyr, yn llai tebygol o gwblhau cwrs. Gallai hyn fod oherwydd natur fyrhoedlog rhai dysgwyr, ond mae hefyd yn wir oherwydd bod rhai dysgwyr yn cael deilliant cadarnhaol ac yn symud ymlaen i waith. Mynegodd nifer o benaethiaid colegau eu rhwystredigaeth bod peidio â chwblhau yn cael effaith negyddol ar eu cyllid, gan gofnodi nad oes yr hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer y dysgwyr hyn yn y system gyllido bresennol. I
- 5.5 Mae'n ofynnol i ddysgwyr ESOL gymryd asesiadau'n aml er mwyn profi cynnydd a rhaid iddynt ailadrodd y flwyddyn gyfan os byddant yn methu mewn un elfen o arholiad y flwyddyn derfynol. Gall hyn ladd cymhelliant a gall fod yn gostus o ran yr amser a'r uchelgais a gall gael effaith ddifrifol o ran deilliannau. Ond, mae ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ESOL lwyddo mewn cymaint o asesiadau yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid. Nododd nifer o benaethiaid colegau eu hanfodlonrwydd am y ffaith bod y gyfran fwyaf o'r cyllid presennol yn ddibynnol ar i ddysgwr lwyddo yn y pedair agwedd ar y cymhwyster ac os bydd dysgwr yn llwyddo mewn un neu ddau o elfennau yn unig o'r prawf, bod hyn yn cael ei weld fel methiant. Yn ychwanegol at y pwysau hwn ar gyllid y mae hefyd y mater y soniwyd amdano o'r blaen, sef natur fyrhoedlog y cohort o ddysgwyr a sut y mae hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar y cyllid a dderbynnir, fel yr esboniodd y rheolwr coleg ESOL canlynol:
- “Os bydd myfyriwr yn gadael ac na fyddwn yn gallu ei gael trwy'r asesiadau, yna ni fyddwn yn cael y cyllid ac mae ein hystadegau ansawdd yn mynd i lawr” (Rheolwr coleg ESOL)
- 5.6 Mae creu cyd-destun ystyrllon i ddysgwyr ddefnyddio iaith yn ddilys yn allweddol wrth eu gwneud yn rhugl, ond cofnodwyd gan nifer o ddarparwyr coleg bod y pwyslais ar addysgu ar gyfer prawf a gormodedd o fiwrocratiaeth yn ymwneud â gweinyddu asesiadau yn niweidiol i arfer da. Cyfeiriwyd at y peirianwaith cyllido, a'r

gofynion cysylltiedig i brofi cynnydd trwy brofion, fel y rheswm pam na ellid cynnwys mwy o amser yn y dosbarth fel rhan o'r maes llafur. Dywedodd nifer o diwtoriaid a rheolwyr colegau y byddai cynnwys elfen anffurfiol, nad yw'n cael ei hasesu yn y cwricwlwm yn gwneud dysgu iaith yn brofiad llawer cyfoethocach i'r myfyrwyr dan sylw a thrwy hynny osgoi amser ar weinyddu nad yw o help addysgol, gan fynegi barn fel:

“Mae'n rhaid i ni fodloni meini prawf penodol o ran dylunio cwricwlwm iddynt gael eu hystyried yn ddysgwr amser llawn. Ac wrth wneud hynny i fodloni'r gofynion rydym yn gwneud pethau nad ydyn nhw, o bosibl, o fudd i'r dysgwyr.” (Rheolwr coleg ESOL).

- 5.7 Mae addysg iaith ystyrllon yn gallu, ac mae yn, digwydd mewn lleoliadau nad oes gofyn iddyn nhw gydymffurfio â system gyllido gymhleth. Mae'r astudiaeth achos ganlynol o sefydliad trydydd sector yn un enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni.

Astudiaeth achos – Oasis

Mae nifer o elusennau yn darparu ESOL ac yn creu lleoliadau hanfodol i gyfeillgarwch ddatblygu, i iaith wella ac i gysylltiadau a phontydd cymdeithasol ddatblygu. Y mwyaf o'r holl elusennau sy'n darparu ESOL yw Oasis yng Nghaerdydd, a sefydlwyd i helpu ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches i integreiddio i'w cymuned leol.

Mae'r tîm gwirfoddol yn bennaf yn Oasis yn trefnu a darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i hyrwyddo'r nod hwn, yn amrywio o glybiau bwyd i deithiau, digwyddiadau chwaraeon, garddio ac ESOL.

Mae'r gweithgareddau hyn yn dwyn pobl at ei gilydd ac yn cynnig cyfleoedd hanfodol i ddatblygu rhuglder iaith, ac yn y ddarpariaeth ESOL anffurfiol y mae'r nifer fwyaf o'u gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio.

Sefydlwyd dosbarthiadau ESOL Oasis yn wreiddiol i roi manau i ddysgu iaith i geiswyr lloches oedd newydd gyrraedd ac yn wynebu'r posibilrwydd o dreulio misoedd ar restr aros cyn dechrau eu dosbarthiadau ESOL ffurfiol. Ond, hyd yn oed ar ôl dechrau yn y coleg, mae llawer o fyfyrwyr yn parhau i ddefnyddio darpariaeth Oasis i 'ychwanegu' at eu dosbarthiadau ffurfiol a thrwy gael mwy o gyfleoedd i ymarfer yn ystod cyfnod y gwyliau.

Er mai dim ond un gweithiwr ESOL proffesiynol llawn-amser sydd yn cael ei gyflogi yn Oasis, mae tua 30 o athrawon gwirfoddol yn darparu addysg iaith anffurfiol yn Heol Sblot

ac ar-lein. Bob wythnos, mae dros 300 o fannau llawn mewn dosbarthiadau gyda dysgwyr newydd yn cyrraedd bob dydd. Cynigir dosbarthiadau Cymraeg i rai sy'n galw i mewn hefyd bob wythnos, sy'n cael eu darparu gan athrawon Cymraeg cymwys gwirfoddol. Yn ychwanegol at hyn, mae 9 o athrawon yn awr yn cael eu cyflogi fesul awr i gyflwyno ESOL heb ei achredu i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches o Afghanistan, y Dwyrain Canol, ac Affrica Dan y Sahara, mewn tri gwesty gwahanol o gwmpas y ddinas. Gyda nifer fawr o blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid o Wcráin eisoes yn y ddinas, a llawer mwy i ddod, disgwylir i'r holl ffigyrau uchod godi'n sylweddol.

Mae'r ddarpariaeth anffurfiol hon yn cynnig sgaffaldiau ieithyddol, seicolegol ac emosiynol allweddol i'r ceiswyr noddfa sydd newydd gyrraedd, gan eu galluogi i ddechrau dysgu iaith, llunio cyfeillgarwch a chael cefnogaeth cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd, fel y mae'r datganiadau yma gan ddysgwyr a gymerodd ran yn y fforymau ar-lein yn datgelu:

“Mae Oasis yn ein helpu i stopio teimlo'n unig”

“Mae Oasis yn rhoi cyfeillgarwch a rhywle i gyfarfod. Rwy'n dod yma ar gyfer y Saesneg ond hefyd y cyfeillgarwch, creu cysylltiadau cymdeithasol a chael hwyl.”

“Os na fyddai Oasis yma, byddai wal rhyngof fi â'r wlad”

Mae bod â'r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i angen hefyd yn nodwedd drawiadol o'r hyn y gall darpariaeth anffurfiol ei gynnig. Er enghraifft, yng ngwersyll Penally sydd wedi cau erbyn hyn, roedd Oasis yn cyflwyno chwe dosbarth ESOL yr wythnos am chwe mis. Mae'r ddarpariaeth mewn gwestai yng Nghaerdydd a'r ddarpariaeth sydd ar fin dechrau i ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd o Wcráin, yn enghraifft arall o'i allu i fod yn ymatebol. Nid yw cyrsiau ESOL ffurfiol, wedi eu rhwymo gan drefniadau cyllido, yn addas nac yn bosibl i'w trefnu gyda chyn lleied o rybudd. Mae'r ffaith bod yr addysg iaith yn y ganolfan heb asesiadau a heb faes llafur wedi ei nodi ymlaen llaw yn gadael i athrawon ganolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i fywydau'r dysgwyr, heb gael eu rhwymo gan orfodaeth i baratoi at brofion neu arholiadau. Mae hyn yn golygu bod lleoedd anffurfiol o'r fath yn fwy tebygol o gynnig cyfleoedd i ymarfer rhuglder, llunio cyfeillgarwch a deall materion fel iechyd, tai, addysg a'r gweithgareddau yn y gymuned leol.

Ond, o ystyried natur wirfoddol y ddarpariaeth, maent yn wynebu heriau anferth wrth darparu'r buddion ieithyddol, cymdeithasol ac emosiynol y gall ESOL effeithiol eu cynnig. Mae'r galw am ddosbarthiadau ESOL yn Oasis yn llawer iawn mwy na'r hyn sydd ar gael ac mae angen dybryd am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i'r athrawon gwirfoddol sy'n

amhrofiadol neu heb y cymwysterau addas. Yn ychwanegol, mae diffyg cyllid ar gyfer cyfleusterau crèche yn golygu bod rhieni, mamau yn neilltuol, yn aml yn colli'r cyfle i fynd i ddosbarthiadau, ac mae diffyg lle yn golygu bod y lleoedd ym mhob dosbarth yn aml yn cael eu dyrannu ar sail cyntaf i'r felin.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Oasis a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yma:

[WHAT WE DO | Oasis Cardiff](#)

Seilwaith

- 5.8 Mae ymrwymiad mewn polisi gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn genedl noddfa ac yn lle sy'n croesawu mudwyr. Yr hyn sy'n glir gan bawb a gymerodd ran, mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, yw ymrwymiad i gefnogi ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr i gyflawni'r deilliannau gorau posibl wrth iddynt ymsefydlu yng Nghymru.
- 5.9 Mae nifer o drefi, ysgolion, cynghorau, prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn ymwneud â'r mudiad noddfa ac yn defnyddio'r ffocws y mae hyn yn ei gynnig i wella'r ymatebion i gefnogi integreiddio ffoaduriaid.
- 5.10 Mae peth tystiolaeth bod y pandemig COVID-19 wedi arwain at lai o gydweithio rhwng darparwyr gan fod y cyfleoedd i rwydweithio wedi bod yn gyfyngedig ac amharu wedi bod arnynt.
- 5.11 Disgrifiodd y trafodaethau mewn fforymau ar-lein ac mewn cyfweiliadau gyda darparwyr sut y mae'r pandemig COVID-19 wedi amharu ar rywfaint o gydlynu a chydweithio yn lleol, gyda rhai cyfarfodydd partneriaeth wedi cael eu hatal. Roedd rhai yn cofnodi eu bod yn y broses o adeiladu rhwydweithiau yn ôl ac ailsefydlu cyfarfodydd a ffyrdd o weithio a rennir.
- 5.12 Mewn un fforwm ar-lein, canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr angen i gael grwpiau cydlynu a chynllunio ESOL ar draws rhanbarthau ac ardaloedd ac roedd barn yn bodoli bod "*mosaig o ddarpariaeth gyda rhai yn disgyn trwy'r bylchau*" mewn rhai ardaloedd.
- 5.13 Cofnododd darparwyr bod lle i wneud trefniadau ffurfiol rhyngddynt eu hunain i sicrhau cynnydd dysgwyr. Teimlid, mewn rhai achosion, bod newidiadau staffio wedi golygu bod perthnasau gwaith hirhoedlog a rhwydweithio anffurfiol wedi cael

eu colli ac nad oes trefniadau ffurfiol rhwng sefydliadau i gymryd lle hyn. Galwodd nifer o'r cyfranogwyr am bartneriaethau lleol clir sy'n cwmpasu cynnydd ac nad ydynt yn seiliedig ar berthnasau proffesiynol personol yn unig.

- 5.14 Soniwyd am rai datblygiadau cadarnhaol gydag un cyngor yn arwain wrth gydlynu ymateb i anghenion ffoaduriaid a mudwyr ac mewn ardaloedd eraill yn ailsefydlu Grŵp Cynllunio ESOL, gan gynnwys cysylltiadau â phrifysgol.
- 5.15 Mae galw cynyddol am ESOL y tu allan i'r prif ardaloedd gwasgaru a'r Hybiau Reach+. Yn yr ardaloedd hyn roedd pryder bod angen mwy o fuddsoddiad i sefydlu gwaith cydlynu a datblygu. Byddai hyn yn galluogi Cymru gyfan i gael dull mwy diwriad wrth ddarparu. Roedd cais i Lywodraeth Cymru chwarae rhan fwy arweiniol a strategol wrth sefydlu hyn.
- 5.16 Awgrymodd nifer o'r cyfranogwyr, o fewn cydlynu lleol a rhanbarthol, bod angen mwy o eglurder am y rheolau yn ymwneud ag ailsefydlu, hawliau a dealltwriaeth o'r cyfarwyddyd am y gwahanol statws mewnfudo. Roeddent yn dadlau y dylai rhywun arwain ar gasglu data ar y bylchau, y cyfleoedd i symud ymlaen ac i gasglu gwybodaeth er mwyn galluogi rhoi adborth ar faterion sydd angen ymdrin â nhw ar lefel genedlaethol a lleol.
- 5.17 Mewn un cyfweiliad roedd yn amlwg bod y galw am ESOL ar draws Cymru yn wahanol iawn – mae'r dirwedd yn wahanol yng Ngogledd a Gorllewin Cymru mewn cymhariaeth â'r De Ddwyrain a Chaerdydd. Roedd teimlad bod rhai gyrrwyr polisi a systemau yn fwy addas i boblogaeth ESOL yng Nghaerdydd a ddim mewn mannau eraill.
- 5.18 Cofnodwyd bod raid i'r ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, addasu ar gyfer niferoedd is o ddysgwyr gyda phroffiliau ac anghenion dysgu gwahanol. Canolbwyntiodd y drafodaeth hon ar angen am ragor o hyblygrwydd yn y system i ddarparwyr addasu i angen a'i bod yn hanfodol cael system gyllido i alluogi hyn.

“Mae angen i Lywodraeth Cymru ymddiried ynom ni (trwy fframweithiau polisi a chyllido) i wneud y peth iawn i'n dysgwyr. Rydym yn deall anghenion ein dysgwyr ac nid yw dull “yr un peth i bawb” yn gweithio”. (Rheolwr coleg ESOL)

5.19 Roedd diffyg gwybodaeth am gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr ESOL yn peri pryder i rai a gymerodd ran. Roeddent yn dweud y byddent yn croesawu adnodd fyddai'n rhoi gwybodaeth am y ddarpariaeth (anffurfiol a ffurfiol) ym mhob ardal i gynghorwyr ei ddefnyddio i gyfeirio a rhoi cyngor i gleientiaid. Roeddent yn bryderus eu bod yn treulio amser staff ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r wybodaeth hon wrth ymateb i geisiadau cleientiaid, mae hyn hefyd yn wir o ran eu hymwybyddiaeth o ffrydiau ariannu gwahanol i ddysgwyr. Roedd awgrym bod sefyllfaoedd yn newid yn gyflym, gyda nifer o lwybrau cyllido ar gael, gall hyn fod yn ddryslyd ac yn rhwystr i ddysgwyr gan y gall y cyllid y maent yn gwybod amdano fod yn gyfyngedig neu fod â meini prawf cymhwyster gwahanol.

“Mae dysgwyr yn dod i mewn ac yn dweud ‘rwyf wedi clywed y gallaf gael hwn’ [cyfle am gyllid], ond pan awn ni ati i fynd trwy'r manylion, rydym yn sylweddoli nad ydynt yn gymwys, ac yna yn eu helpu i ddod o hyd i rywbeth cyfatebol y gallant ei ddefnyddio.” (sefydliad cyfryngu)

Ymwybyddiaeth a Mynediad

Ymwybyddiaeth

5.20 Adroddodd y mwyafrif o ymatebwyr o leoliadau ffurfiol ac anffurfiol bod diffyg cyfathrebu ar nifer o lefelau yn y proffesiwn, a bod angen mwy o gydlynw rhwng yr holl ddarparwyr yn y rhanbarthau ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys darparwyr ffurfiol ac anffurfiol, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant preifat, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg oedolion, fel dywedodd un rheolwr coleg:

“Nid oes cronfa ddata o ddarparwyr yn (ein dinas).” (rheolwr coleg)

5.21 Amlygodd nifer o'r cyfranogwyr yr angen am lwyfan ddigidol i restru pob ffurf ar ddarpariaeth ESOL yng Nghymru. Petai hon yn llwyfan agored yna byddai'n helpu staff rheng flaen eraill i wella eu gwasanaeth cynghori i gleientiaid o fudwyr, er enghraifft, Gyrfa Cymru, Cymru'n Gweithio, arweinwyr adsefydlu awdurdodau lleol neu Ganolfannau Byd Gwaith, yn ogystal â sefydliadau cefnogi eraill ehangach.

- 5.22 Mae enghreifftiau o lwyfannau sydd wedi cael eu datblygu'n llwyddiannus yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Datblygodd [Migrant English Support Hub \(MESH\)](#) cynllun cydweithio yn Swydd Efrog y safle Learn English trwy'r gronfa [Asylum, Migration and Integration Fund \(AMIF\)](#). Yng Nghymru, mae'r [Llwyfan Wythnos Addysg Oedolion](#) yn cynnig dolenni i gyrsiau (yn bersonol/ar-lein) y gellir ei chwilio yn ôl math a rhanbarth, yn ogystal â gwybodaeth a chyngor ehangach.
- 5.23 Byddai llwyfan i Gymru gyfan yn hwyluso gwell ymwybyddiaeth o'r cyrsiau sydd ar gael ac yn galluogi i'r ddarpariaeth ar-lein fod yn haws ei chanfod a'i defnyddio. Byddai hyn hefyd yn cynnig ateb i ardaloedd lle nad yw ESOL ar gael oherwydd problemau yn ymwneud â bod yn wledig neu'r angen am lefel neu fath penodol o ddarpariaeth ESOL.
- 5.24 Wrth gofio am fyfyrwr ESOL a roddwyd ar restr aros tan y flwyddyn academaidd nesaf, mae'r adroddiad hwn gan bennaeth coleg yn dangos y broblem:
- “Ac felly dyna'r math o fyfyrwr y byddem yn ceisio ei helpu i ddod o hyd i rywbeth yn y gymuned. Ond mae'n anodd. Byddem yn ceisio ei gyfeirio. Mae gennym restr, ond mae'n anodd gwybod a yw'r rhestr yn gyfredol neu beidio o hyd. A, wyddoch chi, mae ychydig yn ddryslyd ceisio penderfynu ble y dylai fynd.”
(pennaeth coleg)
- 5.25 Daeth gwell cyfathrebu o fewn colegau a sefydliadau hefyd i'r amlwg fel pryder ac fe'i mynegwyd gan nifer o reolwyr colegau. Cofnodwyd bod absenoldeb unrhyw “swyddog ymgysylltu” neu “fan canolog i gasglu data holistaidd” yn rhwystr wrth geisio dynodi anghenion dysgwyr unigol. Byddai swydd o'r fath yn cynnwys allestyn, casglu data holistaidd am nodau a dyheadau dysgwyr ac adnabod dysgwyr a all wynebu rhwystrau i'w hatal rhag cael mynediad, er enghraifft, rhieni gyda phlant ifanc neu weithwyr rhan-amser, dysgwyr a all ddymuno / fod yn addas i'w rhoi ar lwybr carlam. Byddai'r swyddogaeth hefyd yn cynnwys cyfeirio at ddewisiadau i ddysgwyr trwy gyfathrebu â sefydliadau allanol fel prifysgolion, asiantaethau gwirfoddoli, canolfannau gwaith ac eraill.

5.26 Awgrymodd adborth gan gynrychiolydd awdurdod lleol tu allan i'r prif ardaloedd gwasgaru angen am rôl ddeuol, er enghraifft, tiwtoriaid a allai hefyd weithio fel swyddogion datblygu, gan gyflawni angen i allestyn, rhwydweithio, a dynodi dysgwyr a hwyluso cysylltiadau. Mynegodd un rheolwr ESOL yr hyn yr oedd yn ei deimlo y gallai swydd o'r fath ei gynnwys:

“Mae angen i ni ofyn i ddysgwyr i beth yr ydych eisiau dysgu Saesneg? Sut fyddwch chi yn ei defnyddio? Sut ydych chi'n gweld eich bywyd? Beth yw eich breuddwydion? Beth yw eich uchelgeisiau? Ac yna mae arnoch chi angen y llwybr dysgu yma i'w cael nhw yno.” (rheolwr ESOL)

5.27 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu'r hyn y gellir ei gyflawni os gwneir ymdrech i wella cyfathrebu rhwng darparwyr a deall dyheadau ac anghenion dysgwyr ESOL yn well. Mae taith Samira (nid yr enw cywir) yn enghraifft sy'n darlunio myfyriwr sydd wedi gallu manteisio ar wahanol fathau o ESOL sydd ar gael i gefnogi mudwyr yng Nghymru. Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi yw bod ei thaith lwyddiannus wedi esblygu ar hap, yn hytrach nag ymdrech wedi ei chydlynu:

Astudiaeth Achos - Cyfranogwr

Wrth gyrraedd Cymru yn ystod y cyfnod clo COVID-19 cyntaf nid oedd Samira, o Iran, yn adnabod unrhyw un yng Nghaerdydd ac fe gafodd ei hun ar ei phen ei hun mewn diwylliant dieithr ac yn wynebu'r dasg anferthol o ailadeiladu ei bywyd trwy ddefnyddio iaith nad oedd ganddi ddim ond gwybodaeth sylfaenol ohoni. Mae taith ieithyddol Samira ers iddi ailsefydlu yng Nghymru yn un drawiadol, gan ei bod wedi profi nid yn unig ddarpariaeth anffurfiol, trydydd sector ond hefyd ddosbarthiadau coleg ffurfiol yn ogystal â chyrsgiau paratoi iaith ar gyfer astudio yn y brifysgol. Mae'r tri darparwr yma wedi helpu Samira i gyflawni ei gwir botensial. Yn ei geiriau hi:

“Roedd dosbarthiadau ar-lein Cyngor y Ffoaduriaid yn ystod y cyfnod hwnnw yn achubiaeth. Nid oedd angen mynd trwy unrhyw restrau aros nac asesiadau na gwaith papur. Roedd wirioneddol yn ffenestr tua'r goleuni trwy fy nhywyllwch ac fe wnaeth helpu llawer arnaf. Ar ôl mynychu'r dosbarthiadau hynny, fe ddechreuais i fynd i ddosbarthiadau ESOL yng ngholeg Caerdydd a'r Fro. Fe wnaeth fy Saesneg ddatblygu digon fel fy mod, yn haf 2021, wedi ennill ysgoloriaeth i astudio gradd meistr mewn Dylunio Animeiddio.”

Roedd Samira yng Nghymru am flwyddyn cyn cael ei derbyn ar gwrs ESOL ffurfiol. Bu'n astudio yn y coleg am flwyddyn, gan fynychu dau ddosbarth 3 awr yr wythnos. Ar ddiwedd y flwyddyn honno, llwyddodd yn y prawf Lefel 1 Sgiliau Bywyd ESOL a gwnaeth gais am ysgoloriaeth prifysgol, ac am raglen iaith 5 wythnos ddwys i'w pharatoi ar gyfer yr astudiaeth. Unwaith eto, yn ei geiriau hi:

“Mae bod yn unigolyn sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn rhywbeth sy'n newid bywyd yn wirioneddol. Mae fel petaech yn sefyll wrth ochr ffordd brysur. Mae un cyfeiriad yn eich arwain at weithio mewn bwyty neu ddosbarthu bwyd, y math o swydd nad oes arnoch angen y sgiliau na'r cymwysterau all fod gennych i'w gwneud. Gall gwneud y gwaith yma, pan fyddwch yn gwybod bod gennych fwy i'w gynnig, arwain at broblemau iechyd meddwl gan eich bod yn teimlo eich bod yn cael eich tanbriso ac o fawr o ddefnydd i gymdeithas. Ond, i'r cyfeiriad arall, os byddwch yn lwcus, gallwch ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad, datblygu gyrfa broffesiynol, a bod yn ddefnyddiol i gymdeithas.”

Ar ôl dwy flynedd yn aros am benderfyniad y Swyddfa Gartref ar ei chais am loches, yn y diwedd rhoddwyd statws ffoadur i Samira yn gynharach eleni. Er gwaethaf y cyd-destun beichus iawn, mae hi ar hyn o bryd yn cwblhau ei gradd meistr. Mae'r tri math o addysg iaith wedi chwarae rhan wrth alluogi Samira i ddefnyddio ei sgiliau a'i phrofiad a thrwy hynny fynd ar ôl ei breuddwyd o weithio ym maes Animeiddio.

Mynediad

- 5.28 Cododd nifer o'r darparwyr coleg a'r holl gyfranogwyr trydydd sector y mater bod diffyg cyfleusterau crèche/gofal plant yn rhwystr mawr o ran cymryd rhan mewn dosbarthiadau ESOL. Nodwyd, yn un sefydliad, bod y nifer o fenywod oedd yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau wedi codi'n sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19 gan fod dosbarthiadau ar-lein yn golygu ei bod yn haws cael atynt. Teimlai rhai rheolwyr ESOL nad oedd yr anghenion yma'n cael eu cydnabod wrth gynllunio darpariaeth ac y byddai cyfleusterau crèche o fantais anferth.
- 5.29 Yn amlwg mae angen rhagor o gefnogaeth i rieni â phlant trwy ddosbarthiadau ESOL teulu a darparu cyfleusterau, fel yr esboniodd un rheolwr ESOL i elusen fawr:

“Mae problem anghyfartaledd rhyw anferth ac rwy’n meddwl bod hynny’n ymwneud â gofal plant. Mae’n codi dro ar ôl tro, waeth pa safle neu pa gyd-destun: mae gan fenywod fynediad gwaeth at ddsbarthiadau ESOL na dynion. Ac mae llawer o hyn yn ymwneud â gofal plant.” (rheolwr elusen)

- 5.30 Ar ben hynny, mae enghreifftiau o arfer da a galw am ddsbarthiadau pan fydd y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno gyda chyfleusterau crèche - mewn lleoliadau cymunedol nad ydynt yn gofyn i’r rhai sy’n cymryd rhan deithio ar draws dinas neu ranbarth. Rhoddodd un sefydliad trydydd sector adroddiad am y gwerth ychwanegol o weld plant ifanc yn cael mynediad at y Saesneg trwy ddarpariaeth crèche a grŵp chwarae a’r effaith y mae hyn wedi ei gael ar blant iau nag oedran ysgol nad ydynt wedi arfer clywed na siarad Saesneg.
- 5.31 Mae prinder dewisiadau gwahanol i’r cynnydd blynyddol cyson, ar sail lefelau. Byddai disgwyl i ddysgwyr yn cychwyn dosbarthiadau ESOL ar Lefel Mynediad 1 i gymryd lleiafswm o bum mlynedd i gyrraedd a chwblhau lefel 2 a thrwy hynny ddod yn ‘barod at waith’.
- 5.32 Cofnododd tiwtoriaid a rheolwyr mewn nifer o golegau nad oes ar hyn o bryd ddewisiadau llwybr carlam, dwys ar gyfer dysgwyr llawn cymhelliant, er bod rhai darparwyr yn nodi eu bod yn symud dysgwyr ar ganol tymor. Yn ychwanegol, nid oes bron ddim cyrsiau penodol i bobl ifanc (18-24) sy’n awyddus i gael gwaith neu i fynd i addysg uwch ac nad ydynt efallai’n dymuno treulio pum mlynedd neu fwy yn astudio cyrsiau iaith rhan-amser. Fel y soniwyd, codwyd y bylchau hyn yn y ddarpariaeth gan athrawon a rheolwyr colegau yn ogystal â gan y rhai sy’n gyfrifol am ddarpariaeth ESOL mewn awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector. Un awgrym oedd caniatáu cwblhau aml-lefel, fel yr oedd y tiwtor coleg hwn yn ei argymhell:
- “...wrth fynd yn ôl at y syniad o ffrwd gyflym a ffrwd arafach. Ar hyn o bryd mae gennym system lle mae’n un lefel y flwyddyn, ac rydych i fod i rowlio ymlaen i’r lefel nesaf y flwyddyn nesaf. Ond gallai rhai dysgwyr wneud llawer mwy, dysgu’n gyflymach mewn llai o amser.” (tiwtor coleg)

5.33 Mynegodd cyfranogwyr mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol y gred y byddai darparu cyrsiau dwys, ar sail dyheadau addysg neu waith y rhai sydd ar y cwrs yn ddelfrydol i lawer o ddysgwyr ESOL iau. Fe wnaethant ddynodi angen am gyrsiau ESOL arbenigol oedd yn dysgu iaith ochr yn ochr â dewis galwedigaethol neu addysgiadol y dysgwr. Nodwyd y dylai gwasanaethau fel Canolfannau Byd Gwaith ystyried cyrsiau dwys o'r fath fel paratoad at waith ac felly ddim yn niweidiol i fudd-daliadau neu gefnogaeth arall.

Effaith dysgu o bell ac allgauedd digidol ar fynediad at ESOL.

- 5.34 Amlyga adborth o'r setiau data i gyd bod datblygiad na welwyd ei debyg wedi digwydd mewn dysgu digidol fel ymateb i'r pandemig COVID-19. Fe fu heriau o ran cynnal cyflwyno ESOL mewn amgylchedd o bell neu gyfunol, ond, fe welwyd cynnydd o ran addasu, datblygu addysgu, ac uwchsgilio dysgwyr gyda sgiliau digidol a mynediad at adnoddau digidol.
- 5.35 Mae [Adolygiad Estyn o Arferion Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol](#) yn rhoi dadansoddiad defnyddiol o'r camau 'achub, adolygu ac adnewyddu' o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â dysgu ôl 16 wrth ymateb i COVID-19.
- 5.36 Teimla rhai darparwyr bod potensial i barhau i brofi a datblygu darpariaeth ESOL o bell a chyfunol i ddysgwyr lefel uwch sydd â mwy o sgiliau i ymdopi â dysgu ac adnoddau digidol.
- 5.37 Amlygwyd heriau dysgu o bell i'r dysgwyr ESOL hynny nad ydynt yn llythrennog yn eu hiaith gyntaf ac roedd y rhan fwyaf o'r adborth yn awgrymu, i'r dysgwyr hynny, bod dysgu wyneb yn wyneb yn hanfodol.
- 5.38 Cofnododd cyfranogwyr o bob sector darparu mai dysgwyr â lefel isel o lythrennedd yw'r dysgwyr anoddaf i roi dysgu o bell a dysgu cyfunol iddynt. Adlewyrchwyd hyn yn adroddiad Estyn a ganfu:

“Efallai na fydd medrau iaith dysgwyr yn eu galluogi i ddeall deunyddiau ysgrifenedig yn llawn. Gallai fod angen cymorth arnynt gan athro i'w helpu i

ddeall a dehongli'r deunyddiau. Efallai nad yw rhai dysgwyr a gyrhaeddodd fel ffoaduriaid yng Nghymru yn meddu ar lefelau uchel o lythrennedd yn eu mamiaith, ac er bod darparwyr wedi trefnu cyfieithu deunyddiau i'w mamiaith, nid yw dysgwyr o reidrwydd yn deall beth sy'n ofynnol ohonynt, oni bai bod rhywun ar gael a all ddarllen y wybodaeth iddynt”.

- 5.39 Mae'r adborth yn awgrymu bod llawer o ddysgwyr am ddychwelyd at addysgu wyneb yn wyneb, nid yn unig am y cyfle i fod yn yr un ystafell â'r tiwtoriaid a'u cymheiriaid ond hefyd o ran y cyfleoedd cymdeithasol, rhwydweithio yn ogystal â'r gefnogaeth, gwybodaeth a chyingor ehangach y mae bod mewn cymuned neu amgylchedd coleg yn eu cynnig.
- 5.40 Amlygodd y trafodaethau hefyd y gall darpariaeth ESOL o bell hefyd fod â manteision ar gyfer darparu rhywfaint o barhad i'r dysgwyr hynny sy'n symudol, yn wynebu ansicrwydd o ran trefniadau byw ac yn cael eu hunain yn cael eu symud i ardaloedd gwasgaru eraill ar fyr rybudd.
- 5.41 Awgrymodd adborth gan nifer o gyfranogwyr ar draws y grwpiau ffocws, i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig, y rhai sy'n cael problemau i gael trafniadaeth a dysgwyr sy'n methu dod o hyd i ofal plant priodol, gall dysgu o bell gynnig ffordd o gael mynediad at y ddarpariaeth.
- 5.42 Amlygodd rhai darparwyr mewn colegau a gyfwelwyd bod llawer o ddysgwyr yn gweld cyflwyno ar-lein yn anodd – o ran mynediad at ddyfeisiadau addas, WI-FI a dod o hyd i le tawel i ddysgu.
- 5.43 Mae Adolygiad Estyn yn amlygu darparwyr sydd wedi dechrau cynnwys cwestiynau i ymgeiswyr am gyrsiau neu wrth gofrestru, am y mathau o ddyfeisiadau sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn galluogi archwilio statws digidol dysgwyr a'u hanghenion o'r dechrau.
- 5.44 Cofnododd darparwyr o bob lleoliad eu bod wedi cyflwyno dosbarthiadau llythrennedd digidol i ddysgwyr i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd. Mae hyn hefyd er mwyn eu paratoi a diweddarau eu sgiliau ar gyfer unrhyw ddysgu o bell neu ddysgu cyfunol yn y dyfodol.

- 5.45 Dangosodd adborth o ysgolion iaith preifat bod yr arfer o gynnis gwersi byw ar-lein a thrwy lwyfannau dysgu ar-lein wedi ei sefydlu ac y gallai'r cynnis hwn ddarparu adnodd ychwanegol ar draws y gymysgedd o ddarpariaeth.
- 5.46 Nododd nifer o'r cyfranogwyr y gellid datblygu darpariaeth ddigidol i Gymru gyfan ar gyfer rhai lefelau ESOL neu rai llwybrau ESOL penodol i'r diben, er enghraifft ESOL ar gyfer gwaith. Awgrymodd nifer o'r cyfranogwyr y byddai hyn wedi bod o fudd i'r mewnlifiad sydyn o newydd ddyfodiaid o Wcráin.
- 5.47 Awgrymwyd y gallai'r Brifysgol Agored chwarae rhan wrth gefnogi datblygiadau ac archwilio sut y gellid defnyddio llwyfannau fel Open Learn a Future Learn ar gyfer darpariaeth ESOL. Amlygwyd rhan y Brifysgol Agored wrth ddatblygu [Everyday Maths ac Everyday English](#) ar y cyd gyda darparwyr sgiliau hanfodol mewn addysg bellach a lleoliadau eraill fel enghraifft o arfer da. Mae tiwtoriaid yn awr yn defnyddio'r adnodd hwn yn ychwanegol at addysgu wyneb yn wyneb.
- 5.48 Roedd yr adborth yn ystyried yr angen am Ddatblygu Proffesiynol Parhaus i ddal i uwchsgilio'r gweithlu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u hyder mewn ymwreiddio adnoddau digidol yn eu haddysgu i wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Canfu Adolygiad Estyn o Ddysgu o Bell a Dysgu Cyfunol nad oedd gan y rhan fwyaf o athrawon brofiad personol o naill ai addysgu neu ddysgu ar-lein cyn y cyfnod clo ym Mawrth 2020. Cofnododd y mwyafrif nad oedd ganddynt y wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio'r cyfrwng. Wrth ymateb i'r adolygiad hwn ariannodd Llywodraeth Cymru [Jisc](#) i ddatblygu a darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol yn ymwneud â dylunio dysgu digidol. Dengys Arolwg Gweithlu 2021 gynnydd yn hyder darlithwyr AB (68%) wrth gyflwyno dysgu digidol yn effeithiol (mewn cymhariaeth â 42% cyn y pandemig).
- 5.49 Canfu Adolygiad Estyn bod partneriaethau Dysgu Oedolion Cymunedol yn wynebu mwy o heriau wrth droi i ddysgu o bell oherwydd diffyg timau cefnogi dysgu TG, amgylcheddau dysgu rhithwir canolog a mynediad at adnoddau ar-lein oedd yn cael eu rhannu. Ond, mae, partneriaethau wedi bod yn gweithio'n weithredol gyda Jisc trwy'r pandemig COVID-19 ac maent yn cofnodi datblygiadau sylweddol o ran gweithredu amgylcheddau dysgu rhithwir ac adnoddau ar draws y sector.

- 5.50 Mae'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn nodi bod modelau cymysg amrywiol yn gweithio'n dda. Mae rhai darparwyr yn arloesi, er enghraifft, defnyddio elfennau rhithwir mewn ESOL. Ond maent hefyd yn amlygu mai un o ddibenion allweddol ESOL yw datblygu sgiliau cyfathrebu, ac mae hyn yn gofyn am gyfleoedd i ddysgwyr siarad ag eraill yn bersonol.
- 5.51 Mae'r ddwy i dair blynedd ddiwethaf wedi gweld gwyro cyflym gan ddarparwyr dysgu at fwy o ddefnydd o dulliau digidol o ddarparu. Mae cyflymder y newid wedi amlygu'r amrywiaeth o derminoleg sydd wedi cael ei fabwysiadu i ddisgrifio dulliau dysgu digidol ar draws y sector. Gallai fod o gymorth nodi'r [cyfarwyddyd](#) a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QSS) i gynorthwyo wrth lunio iaith gyffredin i ddisgrifio dulliau digidol o gyflwyno rhaglenni.

Astudiaethau Achos – Cyflwyno Ar-lein

Cymerwyd o [Adolygiad Thematig Estyn](#)

Cameo:

Addasu cwrs dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a'r Fro ar gyfer cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Enghraifft dda o'r dull hwn yw cwrs lefel Mynediad 3 Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a gyflwynir gan Goleg Caerdydd a'r Fro ar y cyd â phartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a'r Fro.

Daeth y tîm sy'n cyflwyno'r cwrs at ei gilydd i ailgynllunio'r cynlluniau gwaith a'r cynlluniau addysgu i weithio'n effeithiol fel cwrs dysgu cyfunol. Yn eu cynllunio, ystyriant sut gallent newid i weithio o bell yn hawdd pe baen nhw mewn cyfnod clo. Rhannodd yr athrawon y grŵp o ddysgwyr yn 'swigod', sef grwpiau llai heb fod yn fwy na phump o bobl, er mwyn bod yn ddiogel o ran COVID-19 pan fydd dysgwyr ar y safle.

I gyflwyno'r cwrs fel dysgu cyfunol, fe wnaethant adolygu'r cwrs a gwneud addasiadau i benderfynu pryd i addysgu medrau iaith ar wahân neu fel medrau cymysg. Trefnodd y tîm i gyflwyno deunydd newydd i ddysgwyr ar-lein fel grŵp cyfan. Mae pob un o'r athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am gyflwyno gwahanol elfennau o'r cwrs. Caiff dysgwyr gyfle ychwanegol i weithio yn eu 'swigod' gydag athro ar y safle neu ar-lein, yn dibynnu ar gyfyngiadau, i ymarfer gwrando, darllen a siarad. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i

amgylchiadau cymdeithasol, ariannol a diwylliannol dysgwyr yn yr hyn maent yn gofyn i ddysgwyr ei wneud ar-lein.

Er enghraifft, gallai dysgwyr fod yn byw gyda'u teuluoedd mewn llety sydd â gofod personol cyfyngedig, ac felly maent yn dymuno ymuno â'r dosbarth gyda fideos wedi eu diffodd. Mewn un dosbarth penodol, adeiladodd yr athro ar waith a gyflwynwyd yn y sesiwn flaenorol gan gydweithiwr arall, gan roi cyfle i ddysgwyr ymarfer defnyddio geirfa a chystrawen newydd trwy ddarllen dogfen wedi'i rhannu ar y sgrin, a rhannu eu syniadau eu hunain yn Saesneg am bwnc y testun.

Gan nad iaith gyntaf y dysgwyr yw'r iaith a ddefnyddir yn y sesiwn, gofalodd yr athro ei fod yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau ar y platfform TG a ddewiswyd i gynnal sylw'r dysgwyr.

Er enghraifft, cyflwynodd yr athro'r testun trwy ei ddarllen ar goedd fel bod y dysgwyr yn gallu clywed yr atalnodi a'r oslef gywir a thrwy ofyn cwestiynau agored. Defnyddiodd yr athro farcwyr lliw i helpu dysgwyr i ddilyn trywydd y testun. Gofynnodd yr athro gwestiynau i ddarganfod pa mor dda y deallodd y dysgwyr y testun, a dod i wybod eu barn, gan felly eu helpu i alw i gof ac ymestyn eu defnydd o iaith.

Darpariaeth ESOL i'r rhai sy'n wynebu bregrusrwydd penodol

5.52 Crybwyllwyd dau gohort o ddysgwyr ESOL gyda bregrusrwydd penodol mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau – y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc.

5.53 Roedd peth pryder am y graddau y mae'r ddarpariaeth ESOL bresennol yn bodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Esboniodd un tiwtor coleg, bod dysgwyr ESOL sy'n oedolion sydd, ar sail ei phrofiad o gefnogi dysgwyr ADY heb fod ar ESOL, yn ymddangos bod ganddynt anghenion ychwanegol am gefnogaeth ac nid ydynt yn gallu dangos cynnydd yn eu dysgu ESOL oherwydd diffyg asesiad o'u hanghenion dysgu.

“Mae'n anodd iawn eu hasesu [dysgwyr ESOL ag ADY posibl] mewn gwirionedd, nid ydym yn eu hasesu os ydyn nhw'n ddysgwr ar lefel mynediad... allan nhw ddim symud ymlaen os nad ydyn nhw'n cael eu hasesu” (tiwtor coleg)

- 5.54 Teimlai nifer o diwtoriaid coleg bod llawer o'r dysgwyr yma nad ydynt efallai erioed wedi cael addysg ffurfiol yn eu gwlad enedigol yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd ADY heb ddiagnosis. Mae potensial i swyddogion cefnogi dysgu mewn colegau weithio ar sail un i un gyda'r dysgwyr yma, ond, mae diffyg mynediad at gyllid ADY yn rhwystr i gynnig y math hwn o gefnogaeth i'r holl ddysgwyr y mae arnynt ei angen.
- 5.55 Amlygwyd hefyd, gan fod llawer o ddysgwyr ESOL ag ADY yn debygol o fod yn gweithio ar y lefel cyn mynediad, nad oes peirianwaith ar hyn o bryd sy'n gadael iddyn nhw gael achrediad am unrhyw elfen o'u dysgu.
- 5.56 Cofnododd tiwtoriaid mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol y gall trawma effeithio ar y gallu i ddysgu a bod ar y dysgwyr yma angen cefnogaeth ychwanegol. Amlygwyd bod diffyg cyllid neu gydlynw i alluogi'r math hwn o gefnogaeth ddigwydd.
- 5.57 Bu rhywfaint o waith yn y maes hwn gyda'r prosiect cydweithredol Trawma a Phrofiadau Plentyndod Niweidiol (TRACE) dan arweiniad Coleg Cambria. Mae'r prosiect hwn yn darparu adnoddau hyfforddi i ddatblygu dull ar sail gwybodaeth o ymdrin â Thrawma a Phrofiadau Plentyndod Niweidiol mewn addysg bellach (AB) yng Nghymru. Ond, tynnodd ymarferwyr sylw at y ffaith bod arnynt hefyd angen mynediad at Ddatblygu Proffesiynol Parhaus ar ddull ar sail gwybodaeth o ymdrin â thrawma wrth addysgu a dysgu sy'n benodol i'r anghenion PTSD a welir mewn dosbarth ESOL.
- 5.58 O ran pobl ifanc, codwyd pryderon am ddiogelu am y rhai dan 18 sydd wedi cael eu hadnabod fel dioddefwyr tebygol masnachu mewn pobl. Maent yn wynebu rhwystrau o ran ymgysylltu â dosbarthiadau ESOL ar-lein er enghraifft, gan nad oes ganddyn nhw le diogel i gysylltu â dysgu o bell. Mae llawer ohonynt hefyd yn bryderus am ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i fynd i ddosbarthiadau wyneb yn wyneb oherwydd pryderon am eu diogelwch corfforol. Cofnodwyd bod y rhwystrau yma o ran cael mynediad at ddysgu ESOL yn peri pryder neilltuol, gan y bydd unrhyw oedi cyn i'r bobl ifanc yma ddysgu Saesneg yn golygu eu bod mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio i waith peryglus neu gael eu hail fasnachu eto.

Mynediad at ESOL i'r rhai sy'n ddarostyngedig i wahanol statws mewnfudo

- 5.59 Mae'r statws mewnfudo amrywiol y cyfeirir ato yn yr adran hon yn cyfeirio at ddysgwyr ESOL sydd yn fudwyr, yn fudwyr trwy orfodaeth, ffoaduriaid a cheiswyr lloches neu bobl â ffurfiau eraill o ddiogeliad dyngarol. Mae'r materion a godwyd yn ymwneud â'r dysgwyr hynny â statws sy'n cyfateb i un o'r rhain, oni bai bod grŵp penodol yn cael ei enwi.
- 5.60 Mae tystiolaeth o rai â statws mewnfudo amrywiol yn cael eu cefnogi gan reolwyr ymgysylltu rhanddeiliaid rhanbarthol Cymru'n Gweithio i gael cyngor am, er enghraifft, eu hawl i weithio a chael eu cyfeirio at gyfleusterau lleol. Ond, mae heriau o ran rhoi cefnogaeth ESOL brydlon i'r unigolion hyn.
- 5.61 Daeth dwy thema i'r amlwg o ran pa mor dda y mae'r ddarpariaeth ESOL yn cynnig cefnogaeth ddigonol ac amserol i'r rhai sy'n ddarostyngedig i statws mewnfudo amrywiol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â heriau darparu oherwydd yr amrywiadau yn y galw; yr ail am ddiffyg cysondeb yn lefelau'r ymwybyddiaeth am ba gyllid sydd ar gael i gefnogi'r dysgwyr yma.
- 5.62 Mae darparwyr yn nodi y gall fod yn heriol iawn sicrhau darpariaeth brydlon i'r holl grwpiau gan fod yr angen am ddarpariaeth yn dueddol o fod yn eithriadol o anodd ei ragweld i'r grwpiau hyn. Nododd un darparwr:
- “Mae'n eithaf anodd pan gewch chi'r tonnau newydd yma o fyfyrwyr yn dod i mewn oherwydd gwrthdaro, i roi lle iddyn nhw ar unwaith a dyna ydi'r broblem o hyd.” (darparwr ESOL)
- 5.63 Mae'r anallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg yn neilltuol o heriol mewn rhanbarthau sydd tu allan i'r ardaloedd gwasgaru. Gwelir mudwyr a ffoaduriaid sydd yn ddysgwyr ESOL lefel uwch dan anfantais neilltuol, gan fod y ddarpariaeth, yn y meysydd hyn, yn dueddol o fod ar lefel gymysg oherwydd bod nifer y myfyrwyr yn is.
- 5.64 Dynodir nad yw mater ansefydlogrwydd llety yn bryder i ddim ond ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd tu allan i ardaloedd gwasgaru. Cofnododd llawer o ddarparwyr ac ymarferwyr, pan nad yw dysgwr yn byw mewn un lle am gyfnod penodol o amser,

yna ni all ei anghenion o ran dysgu ESOL gael eu bodloni mewn modd prydlon. Fe wnaethant esbonio y gall fod y heriol i unigolion ddod o hyd i ddarpariaeth mewn ardal newydd ac y bydd yn rhaid iddynt yn aml ymuno â rhestrau aros cyn y gallant barhau â'u dysgu.

- 5.65 I'r unigolion yma, dynodwyd diffyg cydlynu darpariaeth gan y darparwyr a'r ymarferwyr fel elfen sy'n creu perygl y byddant yn syrthio i'r 'bylchau yn y ddarpariaeth'. Fe wnaeth rhai darparwyr ddynodi bod Cynlluniau Dysgu Unigol o help i gefnogi dysgwyr sydd wedi symud i ardal wahanol. Teimlai nifer o'r rhai oedd yn cymryd rhan y byddai cronfa ddata sy'n rhoi gwybodaeth am y cyrsiau a'r gwasanaethau cefnogi cyffredinol sydd ar gael yn ôl ardal leol yn helpu i gefnogi'r dysgwyr yma.
- 5.66 Mae dryswch ymhlith rhai darparwyr coleg am ba grwpiau sy'n gallu cael darpariaeth ESOL am ddim. Mae adroddiadau o fforymau ar-lein ac wyneb yn wyneb yn disgrifio sut y mae'n ymddangos bod gan ardaloedd gwahanol ganllawiau gwahanol o ran sut y mae ESOL yn cael ei ariannu i geiswyr lloches.
- 5.67 Er enghraifft, ym Mhowys, gall ceiswyr lloches gael blwyddyn o ddarpariaeth ESOL llawn amser cyn mynd ymlaen i ddarpariaeth ran-amser. Ond, roedd darparwyr eraill yn llai clir am hyd y cyllid i'r dysgwyr yma. Cofnododd Cymru'n Gweithio y byddai adnodd sy'n rhoi eglurder am y ffrydiau cyllido a chymhwyster dysgwyr ar gyfer y cyllid yn goresgyn y rhwystr yma. Mae'r amser a gymerir i sefydlu pa ffrydiau cyllido y mae gwahanol grwpiau o ddysgwyr ESOL yn gymwys ar eu cyfer yn achosi oedi anochel cyn y bydd yr unigolion yn mynychu dosbarthiadau.
- 5.68 Amlygodd darparwyr rai heriau wrth gefnogi anghenion ffoaduriaid dan 16 oed a dynodi problemau yn ymwneud ag argaeledd arbenigedd ESOL mewn ysgolion. Esboniodd un o'r cyfranogwyr bod ei goleg wedi derbyn dysgwyr ESOL 14-16 oed i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Ond roedd hyn yn amlygu problemau diogelu penodol i ddysgwyr tu allan i leoliad ysgol, ac nad yw ymarferwyr ESOL o anghenraid wedi eu hyfforddi i addysgu dysgwyr yn y grŵp oedran hwn.
- 5.69 Codwyd pryderon cyllido o ran diffyg mynediad at y Lwfans Cynhaliaeth Addysg i geiswyr lloches ifanc dros 16 oed hefyd gan rai darparwyr ac ymarferwyr. Roedd

hyn yn arbennig o berthnasol o ran yr effaith y gall hyn ei gael ar y cyfle i symud ymlaen i brentisiaeth neu hyfforddeiaeth er enghraifft.

- 5.70 Nododd nifer o'r rhai a gymerodd ran bryder o ran dysgwyr dros 16 oed a'u trosglwyddo o'r ysgol i gwrs galwedigaethol mewn achosion pan nad yw eu sgiliau iaith wedi datblygu'n dda. Roeddent yn awgrymu mwy o hyblygrwydd yn y modelau cyllido i alluogi darparu darpariaeth ESOL llwybr cyflym / dwys ochr yn ochr â chwrs llawn amser.

Cwricwlwm ac Ansawdd

Dulliau Anffurfiol a Chyfranogol

“Fel athro ESOL rydych yn dod yn gyfryngwr, cynghorydd, rydych yn datrys llawer o broblemau.” (tiwtor ESOL coleg)

- 5.71 Cofnodwyd y dymuniad am, a gwerth, mathau o addysg iaith sy'n fwy anffurfiol, cyfranogol, ar sail anghenion bywyd go iawn y dysgwyr, gan fwyafrif y darparwyr ffurfiol ac anffurfiol a gyfwelwyd. Mae addysg iaith i fudwyr yn gorgyffwrdd â materion fel mudo trwy orfodaeth, trawma, gwaith, anllythrennedd, ac ansefydlogrwydd ariannol. Mae mudo, ac yn sicr mudo trwy orfodaeth, yn aml yn golygu colli cyfalaf diwylliannol, cymdeithasol ac ieithyddol, ac mae darparwyr ESOL yn ymwybodol bod addysg iaith mewn lle delfrydol i feithrin y mathau o gysylltiadau cymdeithasol, pontydd a dolenni sydd yn aml yn cael eu colli o ganlyniad i fod yn fudwr.
- 5.72 Pan fydd cyllid ar gael, mae gan ddarparwyr trydydd sector yr annibyniaeth a'r hyblygrwydd i fabwysiadu'r math o ddulliau dysgu cyfranogol a all ymdrin â'r materion cymdeithasol a diwylliannol sydd ymhlyg mewn addysg iaith. Yn ychwanegol, gan nad ydynt wedi eu clymu wrth amserlen asesu gall y ddarpariaeth anffurfiol honno fod mewn gwell sefyllfa i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg.

5.73 I'r gwrthwyneb, ychydig o ryddid sydd gan ddarpariaeth mewn colegau i ddefnyddio dulliau sy'n rhoi'r dysgwr yn ganolog fel hyn. Oherwydd y nifer o asesiadau ar gyrsiau coleg, y rhan fwyaf o'r amser, rhaid i diwtoriaid ddilyn maes llafur penodedig a defnyddio deunyddiau a ddynodwyd er mwyn paratoi dysgwyr ESOL ar gyfer gofynion y prawf / asesiad nesaf. Mae hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i gyfathrebu, rhyngweithio gwirioneddol, a thasgau sy'n rhoi'r dysgwr yn ganolog. Ynghyd â'r ffaith nad yw llawer o diwtoriaid wedi cael eu paratoi i addysgu yn y ffordd honno. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn ddiweddar trwy'r her o ddarparu addysg iaith i'r ffoaduriaid o Wcráin ac Afghanistan, mae gan ddarparwyr ffurfiol lawer llai o ddewisiadau i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Amlygodd nifer o ymatebwyr werth dulliau anffurfiol, gan nodi, er enghraifft:

“Mae'n hanfodol bwysig rhoi cyfle ar gyfer ymarfer anffurfiol...i ddefnyddio dull holistaidd. Mae'n beth da dysgu gramadeg ond mae arnoch hefyd angen gwybod sut i ffonio eich meddyg teulu neu sut mae'r banc yn gweithio.” (rheolwr trydydd sector)

5.74 Yn ychwanegol, roedd nifer o diwtoriaid a rheolwyr colegau yn cydnabod bod angen symud oddi wrth ddefnyddio deunyddiau nad ydynt wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer cyd-destun ESOL. Roedd hyn yn wir nid yn unig oherwydd bod dysgu iaith yn gydgysylltiedig ag ymddiwylliannu a thrwy hynny mae maes llafur sy'n profi gwybodaeth ieithyddol dysgwr yn bennaf yn colli cyfleoedd i ymdrin ag anghenion eraill, ond hefyd oherwydd bod llawer o ddeunydd dysgu iaith yn cael ei gyhoeddi ar gyfer cynulleidfa fyd-eang ac nid yw'n adlewyrchu buddiannau nac anghenion dysgwyr sy'n fudwyr.

5.75 Wrth argymhell dulliau mwy cyfranogol, awgrymodd nifer o ymatebwyr o leoliadau ffurfiol ac anffurfiol y byddai cyfleoedd i roi lle i ddefnyddio Saesneg yn anffurfiol “*yn gweithio'n well nag oriau diddiwedd o astudio deunyddiau cyhoeddedig*”. Roedd barn dysgwyr am dderbyn dulliau gwahanol i addysg iaith ffurfiol, ar sail asesiad hefyd yn gadarnhaol. Nododd nifer eu bod yn mynychu dosbarthiadau anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol oherwydd ei fod yn gyfle i gyfarfod eraill, creu cyfeillgarwch a sgwrsio. Pan fydd manau o'r fath yn cael eu creu, cofnododd

dysgwyr eu bod yn ymarfer eu Saesneg ar yr un pryd â chreu cysylltiadau cymdeithasol.

- 5.76 Y ffordd y mae asesiadau'n ynghlwm wrth beirianweithiau cyllido, a thrwy hynny ei gwneud yn ofynnol i diwtoriaid ddilyn maes llafur penodedig, yw'r prif reswm sy'n atal dosbarthiadau ESOL mewn colegau rhag cynnwys mwy o ddulliau dysgu mwy cyfranogol. Oherwydd hyn, mynegodd rheolwyr mewn nifer o golegau bryderon, mewn rhai enghreifftiau, nad oedd anghenion ehangach y dysgwyr yn cael eu bodloni a bod:

“Y cwricwlwm sy'n cael ei yrru gan asesiad yn atal cyfleoedd i ddysgu.” (rheolwr coleg)

- 5.77 Roedd llawer o'r rhai gymerodd ran yn y fforwm yn trafod y ffordd nad yw trefniadaeth bresennol addysg iaith ffurfiol yn rhoi lle ar gyfer creu amgylchedd dosbarth sy'n rhoi'r dysgwr yn ganolog. Mae darparwyr ESOL yn ymwybodol o natur draws-sectoraidd addysg iaith, integreiddio, a chynhwysiant, ond eto ychydig o le ac amser a roddir i ymchwilio'n ddyfnach i'r materion y byddai dysgwyr yn hoffi ymdrin â nhw, fel yr awgrymodd y tiwtor coleg hwn:

“Mae dysgwyr yn dod â'u “bywydau tu allan” i'r dosbarth bob dydd ond mae'r pwyslais ar asesu'n golygu mai ychydig o amser sydd i ymwneud â'r anghenion a phroblemau yma a'u harchwilio.” (tiwtor coleg)

- 5.78 Mae'r gofyn i roi tystiolaeth am y dysgu trwy asesiadau ffurfiol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffordd y mae dulliau dysgu ESOL wedi esblygu. Hynny yw, mae'r ffordd y mae dysgu ac addysgu wedi ei drefnu wedi datblygu o ymrwymiad i roi tystiolaeth o gynnydd, yn hytrach na datblygu o bwyslais ar anghenion y dysgwyr. Mae baich gweinyddol hefyd yn dod gyda'r drefn brofi, gan arwain at deimladau gan diwtoriaid coleg fel bod y gwaith papur yn “ddwys ac o ddim help” ac y byddai'n “...wych cael cyrsiau nad ydynt wedi eu cysylltu ag asesiadau”.

- 5.79 Mae mudwyr yn y Deyrnas Unedig yn gweld llunio cyfeillgarwch a datblygu cysylltiadau cymdeithasol yn anodd⁴ os ydynt yn mynychu dosbarthiadau ESOL ffurfiol neu beidio. Mae cysylltiadau cymdeithasol yn chwarae rhan fawr wrth hyrwyddo teimlad o berthyn a chynhwysiant, ac mae Fframwaith Dangosyddion Integreiddio Llywodraeth y Deyrnas Unedig⁵ yn cydnabod hyn yn glir. Eifen arall sy'n cael ei chydabod yn y fframwaith hwnnw yw bod gan y cymunedau sy'n derbyn a sefydliadau lleol - gan gynnwys darparwyr addysg iaith - ran ganolog i'w chwarae wrth groesawu a derbyn newydd-ddyfodiaid "fel rhan o'r rhyngweithio dwy ffordd sy'n ganolog i lawer o ddiffiniadau o integreiddio."
- 5.80 Mae digwyddiadau a drefnir mewn ardaloedd a chlybiau sgwrsio yn ychwanegiad derbyniol gan ddarparu cyfleoedd pellach, anffurfiol i ymarfer iaith ac integreiddio. Ond ni ddylid eu gweld fel rhywbeth sy'n cyfateb i addysgu anffurfiol a ddarperir gan athrawon neu wirfoddolwyr cymwys na rhywbeth all gymryd ei le. Mae [set o ddeunyddiau cenedlaethol \(trwy'r Deyrnas Unedig\)](#) ar gael i gefnogi sefydliadau ac unigolion sy'n dymuno cyflwyno clybiau sgwrsio anffurfiol i ddysgwyr mudol. Datblygodd y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol y rhaglen "[Siarad](#)" sy'n dwyn siaradwyr Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd ar gyfer sgysiau anffurfiol mewn lleoliadau cymdeithasol.
- 5.81 Mae'r elusen FAN ar hyn o bryd yn rhedeg 35 o gyfarfodydd grŵp yr wythnos – yng Nghaerdydd, Y Barri, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Llanelli a Chasnewydd gyda chymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae grwpiau Ffrindiau a Chymdogion (FAN) yn fannau i unrhyw un yn y gymuned leol gysylltu ag eraill. Mae tua 200 o gyfranogwyr yn cymryd rhan bob wythnos; nid yw'r cyfan yn ddysgwyr ESOL.

⁴ Ćatibušić, B., Gallagher, F. a Karazi, S. (2021) Syrian voices: An exploration of the language learning needs and integration supports for adult Syrian refugees in Ireland. *International Journal of Inclusive Education* 25(1): 22-39.

⁵ Y Swyddfa Gartref (2019) *Indicators of Integration Framework*. <https://www.gov.uk/government/publications/home-office-indicators-of-integration-framework-2019>

5.82 Disgrifiodd un sefydliad oedd yn rhan o'r adolygiad hwn gynllun cydweithredol gyda'r Sefydliad Iechyd Meddwl i sefydlu grŵp Iechyd a Llesiant i ddysgwyr ESOL. Mae "Perthyn" yn grŵp cefnogi anffurfiol i daclo unigrwydd ac iselder ac mae rhai menywod wedi eu hyfforddi i fod yn fentoriaid cymheiriaid. Gall trafodaethau trwy'r grŵp hwn gynnig cyfle i ymarfer rhuglder a chefnogaeth i ddysgu geiriau newydd yn eu cyd-destun.

5.83 Rhoddodd coleg enghraifft arall o weithio gyda'r asiantaethau gwirfoddol a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol i fynd trwy ddeunyddiau gyda dysgwyr tu allan i'r dosbarth.

"Mae boreau coffi'n llwyddiannus iawn. Maent yn cychwyn ac yn cynorthwyo wrth lunio cyfeillgarwch gwirioneddol a bydd y 'siaradwr Saesneg gwirfoddol' a'r mudwr trwy orfodaeth yn aml yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol ar benwythnosau - i gerdded ar y prom neu i gael coffi arall."
(rheolwr coleg)

5.84 Mae adborth o'r fforymau ar-lein yn awgrymu nad yw gweithio gyda gwirfoddolwyr mewn darpariaeth ffurfiol yn gyffredin ond roedd adroddiadau gan rai darparwyr y byddent yn hoffi gwneud mwy a'u bod wedi cael ceisiadau yn neilltuol gan rai sy'n cyrraedd o Wcráin yn gofyn a allant gael dosbarthiadau gyda gwirfoddolwyr. Gall defnyddio gwirfoddolwyr yn y ddarpariaeth ESOL fod yn fuddiol, er enghraifft trwy gynyddu capasiti a rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr. Mae hefyd yn gofyn am gynllunio gofalus a digon o gefnogaeth i'r rhai sy'n gwirfoddoli. Mae hyn yn helpu i osgoi peryglon fel 'disodli swyddi', lle gall swyddi gweithwyr proffesiynol am dâl gael eu cyfnewid am wirfoddolwyr, a phrofiad a deilliannau gwael i'r dysgwyr oherwydd nad oes gan y gwirfoddolwyr y sgiliau angenrheidiol i hwyluso'r dysgu. Yn benodol, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng athrawon ESOL gwirfoddol (sy'n athrawon ESOL cymwys ond nad ydynt yn cael eu talu) a gwirfoddolwyr sy'n cyflawni swyddogaethau gwahanol i gefnogi dysgu iaith, fel cynorthwywyr dosbarth, partneriaid sgwrsio a mentoriaid.

Datblygu'r gweithlu

“Mae athrawon yn ein coleg yn mentora myfyriwr TAR o ran addysgu ffoaduriaid oherwydd nid oes modiwlau ESOL ar gael.” (rheolwr coleg)

- 5.85 Amlygodd yr ymchwiler ddiffyg athrawon gyda chymhwyster penodol i ESOL. Cyfeiriodd y cyfranogwyr yn yr adolygiad hwn yn aml at yr angen am gymwysterau cychwynnol i athrawon a chyrsgiau datblygu proffesiynol parhaus sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion ESOL. Yn yr holl fforymau ar-lein, roedd yr adborth yn amlygu'r diffyg cymwysterau o'r fath ac anawsterau wrth recriwtio athrawon. Er enghraifft, mae angen llawer mwy o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac addysg gychwynnol i athrawon mewn meysydd fel dysgu sgiliau llythrennedd sylfaenol, dylunio dosbarthiadau cyfranogol, dosbarthiadau rhuglder ar sail trafodaeth, dulliau ar sail trawma a chyd-destun cymdeithasol mudo.
- 5.86 Mewn sefydliadau trydydd sector, lle mae'r cyfleoedd cyllido a datblygu proffesiynol parhaus yn fwy prin eto, mae darparwyr fel arfer yn dibynnu ar hyfforddiant mewnol trwy ewyllys da gwirfoddolwyr mwy profiadol. Mae polisi ESOL Llywodraeth Cymru yn 2018 yn nodi bod gofyn i ddarparwyr ffurfiol gynnig cyfleoedd i staff presennol, a recriwtio staff newydd sydd wedi cymhwyso gyda "chymwysterau penodol i ESOL". Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn bryderus bod, fodd bynnag, ddiffyg difrifol o ran cymwysterau cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus penodol i ESOL. Wrth amlygu'r angen am addysg athrawon ESOL gwell, nododd un gweithiwr proffesiynol ei brofiad:
- “Mae gennym fyfyrwyr...nid oes gennym addysg o gwbl. Fyddwch chi byth yn cael eich addysgu am hynny. Nid yw (addysg athrawon) fyth yn mynd i fanylion am sut i weithio gyda'r dysgwyr hynny nad oes ganddyn nhw gefndir addysgol o gwbl. Mae ganddynt anghenion penodol iawn.” (gweithiwr proffesiynol trydydd sector)
- 5.87 Ar ben hynny, nododd nifer o'r cyfranogwyr bryderon wrth recriwtio staff dysgu oherwydd nad ydynt yn gallu cynnig contractau llawn-amser, sefydlog na sicr oherwydd y dyraniad cyllid blynyddol trwy'r Grant Dysgu Oedolion Cymunedol. Mae

hyn yn gwneud cynllunio a recriwtio gweithlu gyda phrofiad neu gymwysterau addas yn anodd.

- 5.88 Mynegodd nifer o'r cyfranogwyr hefyd bryder bod absenoldeb cymwysterau proffesiynol penodol i addysgu ESOL yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu, hunaniaeth yr athrawon a delwedd y proffesiwn yn gyffredinol.
- 5.89 Ym maes ESOL, mae corff cyfoethog o lenyddiaeth sy'n eiriol dros ddefnyddio dulliau cyfranogol wrth roi addysg iaith i fudwyr⁶ ac, yn bwysig, mae nifer o gyhoeddiadau hefyd, a deunyddiau, wedi eu dylunio i roi gwybodaeth ac addysgu athrawon am y rhain⁷. Er bod dulliau o'r fath wedi eu cynnwys mewn cyrsiau paratoi athrawon ESOL yn y gorffennol, yn fwyaf trawiadol fel rhan o Dystysgrif Lefel 5 mewn ESOL, ers iddo gael ei dynnu yn ôl, nid oes addysg athrawon penodol i ESOL wedi ei hachredu ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Fe fu ymdrechion i gyflwyno prosiectau addysg iaith o fath mwy cyfranogol. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn rhoi enghraifft dda:

Astudiaeth Achos – Y Prosiect Speak to Me

Roedd *Speak to Me* yn brosiect cyfranogol a ddyluniwyd gan ddarlithydd ysgrifennu creadigol, Barrie Llewelyn sy'n gweithio ym Mhrifysgol De Cymru. Roedd y prosiect yn dod â mudwyr oedd wedi ailsefydlu yn ardal Pontypridd yn Ne Cymru at y preswylwyr lleol. Roedd o ganlyniad i drafodaeth rhwng ymchwilwyr ESOL ac athrawon am ddulliau gwahanol o gynyddu gallu myfyrwyr yn y Saesneg. Roedd yn rhan o gylch gweithredu ymchwil oedd wedid dechrau gydag ymchwiliad i sut y gall dosbarthiadau ESOL gael eu trefnu'n gydweithredol a chael eu rhedeg yn ôl egwyddorion ac offer dulliau dysgu cyfranogol. Mae'r prosiect yn cynnig dewis gwahanol i ddsbarthiadau ESOL ffurfiol, sydd

⁶ Er enghraifft, gweler Cooke, M., Bryers, D., a Winstanley, B. (2018). Our Languages: Sociolinguistics in multilingual participatory ESOL. *Working Papers in Urban Language & Literacies* 234. <https://ourlanguages.co.uk/>

⁷ Er enghraifft, gweler y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2017) [Citizens-Curriculum-Activity-Pack-for-Participatory-Learning.pdf \(learningandwork.org.uk\)](#)

ynghlwm wrth asesu, ac yn dangos sut y mae prosiectau cyfranogol yn safleoedd o ddysgu a thrawsnewid gyda'i gilydd i'r rhai oedd yn rhan ohono.

Mae Llewelyn yn disgrifio sut 'yr oedd yn y ffordd y mae pobl yn rhannu eu storïau a gwrando ar ei gilydd. *Fe wnaethom sylweddoli, bod gennym lawer iawn yn gyffredin.*' Roedd y prosiect yn rhoi lle ac amser i ddefnyddio pa bynnag iaith oedd ganddyn nhw i fynegi eu hunain a thrwy hynny ddatblygu'r hyder i siarad. Ond, mae'r prosiect yn ymddangos fel pe bai wedi bod yr un mor fanteisiol i bobl yn y gymuned oedd yn ei derbyn, fel yr oedd un cyfranogwr lleol yn cofio:

“Roedd y prosiect, ac mae'n parhau i fod, yn un o'r profiadau mwyaf buddiol yr wyf erioed wedi bod yn rhan ohono. Roedd cael ein rhoi mewn sefyllfa lle'r oeddem yn gallu dim ond siarad, heb unrhyw bwysau, heb ofn ac yn sicr heb feirniadaeth mor braf, ac o ganlyniad iddo, rwy'n meddwl ein bod ni i gyd wedi dod yno gyda phersbectif ehangach, gwenau lletach.”

Gellir gweld arddangosfa am y prosiect, a dwy ffilm a wnaed pan oedd yn rhedeg, isod:

Speak to Me (2021) <https://gallery.southwales.ac.uk/past-exhibitions/speak-me/>

Speak to Me Too (2022) [English Research at USW | Speak to Me Too - YouTube](#)

Speak to Me Too (2022) [Tenby 4 - YouTube](#)

Darpariaeth Gymraeg

- 5.90 Mae'r adborth ar draws nifer o setiau data yn awgrymu, er mai'r flaenoriaeth i lawer o ddarparwyr oedd sicrhau darpariaeth ESOL ddigonol fe welwyd peth cynnydd ar ddatblygu a darparu Cymraeg i siaradwyr ieithoedd eraill, gyda rhai darparwyr yn cynnig hynny neu ymwreiddio'r Gymraeg yn y ddarpariaeth.
- 5.91 Mae'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg (<https://learnwelsh.cymru>) yn cefnogi un ar ddeg o ddarparwyr "Dysgu Cymraeg" ar draws Cymru ac yn gyfrifol am bob agwedd o'r sector Dysgu Cymraeg - o ddatblygu'r cwricwlwm a'r cwrs i adnoddau i diwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu. Mae strwythur ffi yn ei le ac mae cyrsiau iaith Dysgu Cymraeg yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb, ar bum lefel dysgu.

- 5.92 Tynnodd cyfweiliad gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sylw at baratoi darpariaeth yng nghyswllt ffoaduriaid a mudwyr. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi creu "Croeso i Bawb" (Gweler yr astudiaeth achos tudalen 40) yn dilyn cyflwyniad yng nghynhadledd ESOL Cymru yn 2019 a'r trafodaethau dilynol yn Rhwydwaith ESOL Cymru, a drefnwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith.
- 5.93 Mae'r cwrs blasu "Croeso i Bawb" am ddim, gyda grantiau i'r rhwydwaith darparwyr gyflwyno cyrsiau. Sefydlodd y Ganolfan bolisi lle mae pob cwrs blasu Dysgu Cymraeg am ddim yn awr i'r holl ddysgwyr gan alluogi i Croeso i Bawb gael ei gyflwyno am ddim i fudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, o fewn y polisi hwn.
- 5.94 Amlygodd cyfweiliad gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, ddatblygu Memorandwm Dealltwriaeth gyda'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol i gynyddu cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg. Dysgir [cwrs 10 awr Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill](#) i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a ddatblygwyd gan y Ganolfan Genedlaethol, gan Addysg Oedolion Cymru. Treialwyd y ddarpariaeth gyda dysgwyr ar y prosiect AMIF (Cronfa Lloches, Mudo ac Integreiddio) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd ac mae wedi cael ei gynnig yn ehangach.
- "Mae'r cwrs Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill yn rhoi cyfle i ddysgwyr ESOL i ddysgu rhywfaint o Gymraeg sylfaenol ac mae wedi bod yn faes llwyddiannus iawn yn y ddarpariaeth, yr ydym yn ei ddatblygu ymhellach i gyrraedd rhagor o ddysgwyr ar draws Cymru."
- 5.95 Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cyflwyno fersiwn Gogledd Cymru o'r cwrs Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill ar-lein ac mewn lleoliadau ar draws yr ardal. Bydd cynlluniau i ymestyn y nifer o gyrsiau ar-lein a rhedeg cyrsiau wyneb yn wyneb ychwanegol yn Abertawe a Chasnewydd yn cael eu trefnu o fis Medi 2022. Mae cynlluniau yn eu lle i redeg sesiynau blasu yn yr haf ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin mewn Canolfannau Croeso ac ymestyn y ddarpariaeth i rieni sy'n gysylltiedig ag ysgolion ac integreiddio elfen dysgu teuluol i'w rhaglen Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill.

- 5.96 Dynododd y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol ddymuniad i weithio'n fwy gweithredol gyda darparwyr ESOL eraill i gyflwyno'r cwrs blasu Croeso i Bawb a'r ddarpariaeth Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.
- 5.97 Mae "Dysgu Oedolion yng Nghymru" - dogfen bolisi Llywodraeth Cymru, yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dysgu cymunedol i oedolion yng Nghymru. Mae'r datganiad yn nodi'r blaenoriaethau i ariannu darparu Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol gan gynnwys ESOL, Sgiliau Rhifau Hanfodol, Sgiliau Digidol Hanfodol a Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol.
- 5.98 Mae Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach a Dysgu Oedolion Cymru yn rhoi darpariaeth. Er bod pwyslais ar sicrhau, pan fydd yn briodol, bod y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, nid oes gofyn i ddarparu Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill fel rhan o'r polisi hwn.
- 5.99 Cyfwelwyd cynrychiolwyr o Bartneriaeth Dysgu Oedolion Cymru (yn cynrychioli darpariaeth awdurdodau lleol a dysgu cymunedol i oedolion mewn addysg bellach) ac roeddent yn dweud bod llawer o ddarparwyr yn cynnig sesiwn 'gyflwyno'r' Gymraeg fel rhan o'r cwrs ESOL. Mae'r Gymraeg hefyd wedi 'ymwreiddio' gan fod ymarferwyr yn defnyddio deunyddiau dysgu lleol, a thestun sy'n cynnwys geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Tynnir sylw dysgwyr ESOL hefyd at gyrsiau Cymraeg i Oedolion.
- 5.100 Dangosodd cyfweiliadau gyda darparwyr eraill yng Ngogledd Cymru bod ymwreiddio'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn cyrsiau ESOL yn gweithio'n well na dosbarthiadau Cymraeg ar eu pennau eu hunain. Roedd gan un darparwr grŵp bychan o ddysgwyr lefel 1 a wnaeth rhywfaint o'r ddarpariaeth Cymraeg Gwaith. Ond gan fod 75% o'r dysgwyr ar lefel mynediad mae'r pwyslais ar gynyddu sgiliau Saesneg gan eu bod yn teimlo y byddai'n ddryslyd ceisio cyflwyno iaith arall yn rhy fuan ar gyfer dysgwyr ar y lefel hon. Fe wnaethant gofnodi y byddai'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fel ffordd o symud ymlaen.
- 5.101 Amlygodd y cyfweiliadau bod Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill gan REACH yng Nghaerdydd a thrwy ddarparwyr gwirfoddol anffurfiol yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

“Cychwynnodd Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill yn y ganolfan tua 4 mlynedd yn ôl – mae menywod eisiau dysgu Cymraeg fel eu bod yn gallu helpu eu plant. Datblygwyd cyrsiau blasu trwy’r Grant Dysgu Cymraeg.” (cynrychiolydd REACH)

- 5.102 Cyflwynwyd dull amlapio mewn rhai ardaloedd, gyda darpariaeth ESOL yn cael ei chyfuno â gwersi Cymraeg, llythrennedd cyfrifiadurol, diwylliant, boreau coffi a sesiynau siaradwyr o’r tu allan achlysurol.
- 5.103 Cofnododd nifer o gyfranogwyr y gallai’r canolfannau Dysgu Cymraeg wneud mwy i allestyn at gymunedau mudol a “chlybiau Cymraeg” lleol wneud mwy i hyrwyddo cynhwysiant ac integreiddio. Roedd awgrym bod enghreifftiau o gyflawni rhagorol gan rai sefydliadau yn dameidiog yn hytrach na pholisi wedi ei gydlynu.

Astudiaeth Achos Wedi ei Ffilmio – Ysbrydoli! Enillydd Gwobr

Joseff Gnagbo yn disgrifio ei brofiad o ddysgu Cymraeg.

<https://www.youtube.com/user/niacedc/search?query=joseff>

Astudiaeth Achos – Y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol

Croeso i Bawb

Fel rhan o’i chenhadaeth i groesawu pobl o bob cefndir i ddysgu a mwynhau’r Gymraeg, mae gan y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol brosiect ‘Croeso i Bawb’ i ddysgu’r Gymraeg i bobl nad ydyn nhw yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Trwy ymgynghori ag arbenigwyr ac ymarferwyr ESOL a Dysgu Cymraeg, fe wnaethant gynhyrchu cwrs blasu Cymraeg nad yw’n defnyddio unrhyw Saesneg. Mae’r cwrs yn cynnwys traciau sain a chardiau fflach. Roedd y cwrs yn cael ei dreialu pan ddaeth y cyfnod clo cyntaf ac mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn awr yn cynllunio darpariaeth ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd.

Mae’r Ganolfan Genedlaethol wedi gwneud dau beth i hwyluso’r cyrsiau hyn: mabwysiadu polisi lle mae pob cwrs blasu Dysgu Cymraeg am ddim a sefydlu grant i’n darparwyr i

gynnal cyrsiau blasu 'Croeso i Bawb'. Mae'r cyllid grant yn ychwanegol at y cyllid craidd i wasanaethau Dysgu Cymraeg eraill.

Fe wnaethant gydnabod bod darparwyr ESOL (nad ydyn nhw'n rhan o'r Ganolfan Genedlaethol) mewn sefyllfa ragorol i ddenu dysgwyr at gyrsiau 'Croeso i Bawb'. Felly, fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Dysgu Oedolion Cymru, maent yn darparu cyrsiau Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Hyd yn hyn, cynhaliwyd pedwar cwrs: tri rhithwir ac un wyneb yn wyneb. Fel rhan o'r bartneriaeth hon, mae aelod o staff Dysgu Cymraeg yn ymweld â'r sesiwn olaf y cyrsiau hyn i drafod cynnydd.

Yn dilyn grant gan Lywodraeth Cymru, mae tair elfen newydd o'r prosiect yn cael eu datblygu:

Bydd y cwrs blasu ar gael fel cwrs hunan-astudio ar-lein yn learnwelsh.cymru;

Bydd unedau am Gymru a'r iaith Gymraeg ar gael mewn pum iaith ar learnwelsh.cymru: Cantoneg, Iaith Syria, Arabeg, Farsi, Pashto ac Wcraneg;

Bydd cyrsiau Say Something in Welsh ar gael mewn Pashto, Dari ac Arabeg.

Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn parhau i ddatblygu adnoddau a'r ddarpariaeth 'Croeso i Bawb'. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrch farchnata wedi ei chreu i'r diben a digwyddiad i lansio'r elfennau newydd yn y prosiect.

ESOL a Chyflogaeth

- 5.104 Mae cael mynediad at waith yn nod allweddol i lawer o'r rhai sy'n ymuno â'r ddarpariaeth ESOL. Fodd bynnag, i lawer, gall y llwybr at waith sy'n cyd-fynd â'u sgiliau a'u huchelgais fod yn araf ac anodd. Mae gan rai dysgwyr gymwysterau proffesiynol ac roeddent mewn gwaith ar lefel uchel cyn cyrraedd Cymru ac maent yn gweld y cynnydd araf mewn dosbarthiadau ESOL yn anodd. Chick a Hannagan Lewis (2020)⁸
- 5.105 Cofnododd nifer o diwtoriaid a rheolwyr colegau werth cyrsiau ESOL+ lle mae dysgwyr yn dod at ei gilydd ar gyfer dosbarth ESOL ac yna'n cael eu ffrydio i fodylau galwedigaethol o'u dewis.

⁸ Chick a Hannagan Lewis (2020)

https://pure.southwales.ac.uk/ws/portalfiles/portal/4862343/Refugee_Council_Report_A4.pdf_Dec_15th.pdf

- 5.106 Canfu'r data a gasglwyd nad yw'r math hwn o ddarpariaeth wedi ei datblygu gan golegau eraill ar draws Cymru, gyda'r adborth yn awgrymu bod datblygu cyrsiau ar y model ESOL+ wedi bod yn heriol yn bennaf oherwydd bod y cohort o ddysgwyr yn llai.
- 5.107 Mynegodd y mwyafrif o gyfranogwyr mewn colegau ddymuniad am ESOL sy'n rhoi mwy o bwyslais galwedigaethol. Roedd llawer yn cydnabod yr angen i ddarparu hyn ond yn teimlo eu bod wedi eu cyfyngu yn eu gallu i wneud hynny oherwydd y niferoedd is o ddysgwyr, a chohortau o ddysgwyr gyda llai o allu ieithyddol.
- “Byddem yn hoffi'r rhyddid i lunio model fyddai'n cefnogi dysgwyr ar lefelau is i waith – mae gennym archwaeth i wneud mwy ond byddai arnom angen model gyllido i alluogi hyn.” (rheolwr coleg)
- 5.108 Cydnabuwyd yr angen am gefnogaeth alwedigaethol a chyflogadwyedd i ddysgwyr ESOL fel maes o'r ddarpariaeth sydd angen ei ddatblygu ar frys, i ymateb i anghenion ac uchelgais dysgwyr.
- 5.109 Awgrymodd un rheolwr coleg, o fewn y ddarpariaeth bresennol, nad yw'n cael ei ystyried bod gan gyfran fawr o ddysgwyr ESOL lefel ddigon uchel o sgiliau iaith i fynd i ddsbarthiadau ESOL galwedigaethol. Ond, gall aros i ddysgwr gyrraedd lefel briodol gymryd cryn amser, arwain at rwystredigaeth dysgwyr a chreu perygl y byddant yn gadael oherwydd nad yw'r dysgwr yn cael ei fodloni neu ei ysgogi gan y lefel/math o ESOL y mae'n ei gael.
- 5.110 Bu gwaith yn Nwyrain Lloegr i ddatblygu ESOL cyn-alwedigaethol, er mwyn galluogi rhagor o ddysgwyr ar wahanol lefelau i gael llwybr at waith.

Astudiaeth Achos: Llesiant a Gwaith i Integreiddio Ffoaduriaid (Dwyrain Lloegr)

Ysbrydolwyd y prosiect wedi ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd yn rhannol [Well being and Work for Refugee Integration Project - EELGA SMP](#) (WW4RI) gan gynlluniau cynharach i wella integreiddio ffoaduriaid trwy leihau'r amser oedd ei angen i gael mynediad i'r farchnad lafur a dod o hyd i waith addas.

Trwy roi strwythur cefnogaeth cynhwysfawr sy'n cydnabod yr holl agweddau ar fywyd ffoadur, mae'r rhai sy'n cael budd o'r prosiect yn derbyn cefnogaeth wedi ei theilwra ar gyfer eu sgiliau cyflogaeth, sgiliau Saesneg ac iechyd a llesiant, i daclo'r hyn sy'n atal integreiddio'n holistaidd.

Mae edefyn cyflogaeth WW4RI yn cynnwys cynghorwyr yn rhoi cymorth i'r buddiolwyr gyda'u sgiliau cyflogaeth, gan eu helpu i ddeall marchnad lafur y Deyrnas Unedig a dod o hyd i waith addas. Mae cynghorwyr yn cefnogi'r buddiolwyr trwy gydol y prosiect, ac yn eu cyfeirio at ffurfiau eraill o gefnogaeth.

Mae edefyn ESOL a Sgiliau'r prosiect yn ymateb i angen ffoaduriaid am gefnogaeth iaith. Mae cyrsiau ESOL penodol i sector yn hwyluso gwella dysgu sgiliau Saesneg a dysgu am sectorau penodol; ar ôl eu gorffen maent yn cynnig lleoliadau gwaith gyda chyflogwyr lleol.

Mae cyrsiau sgiliau, lle gall buddiolwyr wella eu sgiliau TG neu ddysgu theori gyrru, hefyd ar gael. Yn ychwanegol, mae MENTA yn rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n dymuno dechrau busnes, gan gynnwys y rhai sydd wedi rhedeg busnesau eu hunain yn y wlad y daethant ohoni.

Mae'r edefyn llesiant yn rhoi mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl unigol, wedi ei dargedu, i ymateb i brofiadau trawmatig rhai ffoaduriaid a straen seicolegol mudo, a'r diffyg arbenigedd prif-ffrwd sydd ar gael.

- 5.111 Roedd tystiolaeth bod peth darpariaeth mannau gwaith ar gyfer ESOL yn cael ei gyfyngu oherwydd cyndynrwydd cyflogwyr i roi amser o'r gwaith ar gyfer dosbarthiadau a phatrymau shifft anodd yn amharu ar y gallu i fynd i ddosbarthiadau.
- 5.112 Amlygodd un cyfweiliad effeithiolrwydd y cynllun [Addewid Cyflogwyr](#) oedd yn rhan o'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru. Roedd yr Addewid yn rhoi hwb cenedlaethol i gael cefnogaeth cyflogwyr a chydabyddiaeth o werth galluogi mynediad at ddysgu yn y gwaith.
- 5.113 Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid creu model cyllido ESOL ar Sail Gwaith i roi cymysgedd o ddysgu yn y gweithle ochr yn ochr â chefnogaeth ac achredu ESOL. Dywedodd un coleg y byddai'n hoffi datblygu cymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb gyda dysgu ar-lein ar gyfer darpariaeth alwedigaethol/gweithle ond teimlai bod gwaith datblygu ac arloesi'n cael ei atal yn y model cyllido presennol.

“Mae arnom angen hyblygrwydd yn y cyllido i allu rhoi pecynnau i’r diben at ei gilydd. Nid oes gennym y cyllid i fynd hyd lwybrau eraill a chreu pecynnau ehangach i ganolbwyntio ar sector penodol.” (rheolwr coleg)

- 5.114 Awgrymodd un cyfranogwr mewn cyfweiliad y dylid creu pecyn cynhwysol o ESOL a chefnogaeth cyflogaeth (yr un fath â rhaglenni sydd ar gael ar hyn o bryd i fyfyrwyr 16-18 oed) ac i’r dull hwn gael ei gydnabod yn y dyraniadau cyllid.
- 5.115 Galwodd nifer o diwtoriaid a rheolwyr coleg am ddull trochi, carlam o gyflwyno ESOL fyddai’n cynnig digon o amrywiaeth a hyblygrwydd i gael ei deilwra i wahanol lwybrau galwedigaethol. Nodwyd hefyd bod angen am gefnogaeth holistaidd yn canolbwyntio ar lesiant, cynyddu hyder a chyfarwyddyd ar gyfer llwybrau at ddysgu pellach neu gyflogaeth.

Astudiaeth Achos: Cerrig Camu – Gogledd Iwerddon

Mae'r Prosiect 'Cerrig Camu' Pobl Ifanc ESOL yn gynllun cydweithredol rhwng Canolfan Addysg Conway, Extern, Prifysgol Ulster, a'r Full Service Community Network. Pwyslais cyffredinol y prosiect yw datblygu gallu yn y Saesneg a sgiliau cymdeithasol gan bobl ifanc sydd wedi ymfudo, ffoaduriaid a rhai heb gydymaith sydd wedi cyrraedd Gogledd Iwerddon yn ddiweddar.

Mae hon yn boblogaeth gynyddol ac amrywiol yng Ngogledd Iwerddon, sydd, wrth gyrraedd, yn aml heb fawr neu ddim sgiliau Saesneg. O ganlyniad, gall y boblogaeth hon gael trafferth i sicrhau lleoedd mewn ysgolion neu addysg bellach gydag oblygiadau o ran dysgu academaidd, cynhwysiant a dewisiadau bywyd yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae llawer o bobl ifanc sy'n mewnfudo, ffoaduriaid a rhai heb gydymaith yn wynebu ffactorau risg allweddol cyn cyrraedd Gogledd Iwerddon, a all gynnwys bod yn agored i drais, gwahanu oddi wrth deulu, a thlodi.

O ystyried y trafferthion y mae mewnfudwyr ifanc a ffoaduriaid yn eu profi gyda rhwystrau iaith a llesiant cymdeithasol-economaidd, a'r rhyngweithio rhwng y ffactorau hyn, sefydlwyd prosiect 24-wythnos (Medi 2021 – Ebrill 2022) iaith a llesiant i roi rhaglen addysg, iaith a llesiant wedi ei strwythuro.

Roedd hyn wedi ei anelu yn benodol at hwyluso caffael Saesneg, rhoi datblygiad personol i wella hyder a sgiliau cymdeithasol, rhoi cyfarwyddyd o ran cyfleoedd addysgol a gwaith, ac i feithrin ymdeimlad cyffredinol o berthyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys cydweithio unigryw rhwng addysg, y sector elusennol ac academyddion.

Darparwyd y rhaglen hon i 11 o ffoaduriaid ifanc a cheiswyr lloches rhwng 16 ag 19 mlwydd oed nad oedd yn derbyn lle mewn addysg uwchradd.

Amcanion:

Rhoi rhaglen addysg wedi ei strwythuro i hwyluso dysgu Saesneg, cynyddu hyder ac integreiddio i gymdeithas Gogledd Iwerddon

Darparu asesiad iaith wedi ei deilwrio a blaengar ac ymyrraeth i ddynodi a thargedu meysydd penodol o ran angen iaith a chyflymu eu datblygiad yn y Saesneg

Darparu sesiynau datblygu personol a llesiant i wella hyder a chyfleoedd i ddangos cynnydd o ran addysg/cyflogadwyedd a chreu ymdeimlad o berthyn

Darparu profiad addysgol holistaidd a chadarnhaol a fydd yn rhoi sgiliau iaith gwell a hyder i'r cyfranogwyr

- 5.116 I rai dysgwyr ESOL, gallai cydnabyddiaeth o'u sgiliau a'u cymwysterau presennol gynnig llwybr cyflymach i'r math o waith y mae arnynt ei eisiau. Mae llawer o fudwyr a ffoaduriaid yn sefydlu yng Nghymru gyda chymwysterau proffesiynol a gall treulio pum mlynedd yn symud trwy'r lefelau ESOL ladd eu cymhelliant.
- 5.117 Yn y fforymau ar-lein roedd ymwybyddiaeth gymysg o ran y cyfleoedd ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol i gynnig cynnydd a llwybrau i waith. Dywedodd un cyfranogwr:
- “Dylai cydnabod dysgu blaenorol fod yn flaenoriaeth. Sut ydym ni'n ymateb yn gyflym?”
- 5.118 Ond, dim ond un cyfranogwr yn y grwpiau ffocws ar-lein a ddywedodd ei fod wedi defnyddio dull cydnabod dysgu blaenorol i gael cydnabyddiaeth i gymwysterau presennol dysgwr. Nid oedd rhai o'r cyfranogwyr yn ymwybodol o gydnabod dysgu blaenorol a'r hyn y gallent ei wneud i gefnogi eu dysgwyr yn y broses hon.
- 5.119 Mae rhywfaint o ymarfer yn datblygu yn y maes hwn gan [Lywodraeth yr Alban](#), gyda chyhoeddi cyllid ar gyfer prosiect treialu i leihau bwlch sgiliau'r Alban trwy gydnabod ac achredu sgiliau a chymwysterau mudwyr a ffoaduriaid yn ffurfiol mewn sectorau allweddol fel gofal cymdeithasol, adeiladu, peirianeg, TG a lletygarwch.
- 5.120 Mae Colegau Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar brosiect i ddatblygu dull mwy systematig yng Nghymru ac i rannu'r arfer o'r Alban. Cynhaliwyd gweithdai ar draws y sector gan gynnwys ESOL, i drafod [dull yr Alban](#) ac i fapio ffordd glir ymlaen gyda phartneriaid yng Nghymru. Dynododd Colegau Cymru mai'r brif broses ar gyfer cydnabod cymwysterau gan fudwyr trwy orfodaeth oedd trwy ddatganiadau cymharu wedi eu cyhoeddi trwy'r asiantaeth genedlaethol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cymwysterau a sgiliau rhyngwladol (UK ENIC - www.enic.org.uk). Canfu eu hymchwil, er bod y broses o gael datganiadau cymharu pan oedd y mudwyr yn gallu dangos tystiolaeth ddogfennol yn cael ei deall yn dda, ychydig o ymwybyddiaeth oedd o broses ENIC pan oedd ond tystiolaeth gyfyngedig neu ddim tystiolaeth ddogfennol o gwbl.

5.121 Datblygodd gwaith pellach yn y maes hwn gydag UK ENIC a sefydliadau fel Gyrfa Cymru yn ogystal â sefydliadau trydydd sector i gynyddu dealltwriaeth o'r prosesau.

REACH

5.122 Nid oedd yr adolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o'r prosiect REACH. Fodd bynnag, gwnaeth darparwyr gyfeiriadau niferus at ei weithrediad o'r tu mewn a'r tu allan i'r dinasoedd gwasgaru.

5.123 Mewn ardaloedd lle nad oedd REACH yn weithredol (h.y. tu allan i'r 4 ardal wasgaru), mynegodd nifer o reolwyr coleg eu pryderon nad oeddent yn derbyn cymaint o gefnogaeth wrth gynnal asesiadau cychwynnol ag yr oedd ardaloedd eraill.

5.124 Mae asesiadau cychwynnol yn cymryd amser ac yn bwnc cynyddol wrth i'r nifer o bobl ar wasgar gynyddu ym mhob rhan o Gymru. Yn y dinasoedd gwasgaru eu hunain, roedd y pryderon a fynegwyd gan gyfranogwyr gan diwtoriaid coleg a rheolwyr fel ei gilydd, yn canolbwyntio ar bedwar prif faes. Yn gyntaf, nad yw dosbarthiadau allestyn mewn sefyllfaoedd cymunedol yn cael eu hannog na'u cefnogi.

5.125 Yn ail, roedd y broses o anfon dysgwyr newydd gan ddarparwyr anffurfiol i hybiau REACH yn aml yn arwain at amseroedd aros a dryswch ar ran y dysgwr.

5.126 Yn drydydd, bod diffyg cyfathrebu rhwng aseswyr REACH a darparwyr ESOL yn golygu, mewn rhai achosion, bod asesiadau cychwynnol yn cael eu cyflawni gan y darparwr yn ogystal â gan aseswyr REACH.

5.127 Yn bedwerydd, y dylai asesiadau cychwynnol REACH roi asesiad mwy holistaidd a dealltwriaeth o anghenion y dysgwr a llwybrau. Er enghraifft, nid yw REACH yn casglu gwybodaeth am anghenion gofal plant / dyheadau addysgol ac ati. Gallai'r fframwaith casglu data ESOL a ddatblygwyd gan [Dysgu a Gweithio](#) gynnig pwynt i gytuno ar ddull cyffredin o gasglu data ESOL.

5.128 Roedd diffyg rhan y trydydd sector a darparwyr anffurfiol eraill yn bwynt a ailadroddwyd gan nifer o'r rhai oedd yn cymryd rhan, fel y dywedodd y tiwtor coleg hwn:

'Cyn i mi ddechrau yn y coleg 6-7 mlynedd yn ôl, roeddwn wedi bod yn gweithio yn Women Connect First yng Nglanyrafon, a Bawso yn Nhrebiwt, ac [aneglur]... ac i feddwl eu bod nhw i gyd wedi mynd pan gawson ni REACH --- a REACH oedd y pwynt i'w cadw!' (tiwtor coleg)

6. Casgliadau ac Argymhellion: Blaenoriaethau Gweithredu

- 6.1 Un o'r argraffiadau mwyaf trawiadol a ddeilliodd o'r cyfweiliadau a'r trafodaethau yn y fforymau ar-lein a'r grwpiau ffocws oedd angerdd, ymrwymiad, ac ymroddiad y gweithwyr ESOL proffesiynol a gyfrannodd at yr adolygiad.
- 6.2 Mae addysgu ESOL effeithio yn gofyn am lawer mwy na dim ond esbonio rheolau gramadeg, codi ymwybyddiaeth eirfaol neu gyflwyno patrymau ffonolegol yn Saesneg. Athrawon ESOL yn aml yw'r staff rheng flaen y mae mudwyr yn mynd atynt am help. Mae athrawon ESOL yn datblygu arbenigedd a dealltwriaeth o'r lluo o heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n llunio neu ail-lunio bywyd newydd mewn iaith newydd.
- 6.3 Ar draws Cymru fe wnaethom ddod ar draws timau o weithwyr proffesiynol ESOL ymroddedig sy'n awyddus i ddarparu addysg iaith holistaidd ac ystyrlon, ar sail anghenion bywyd gwirioneddol y dysgwyr. Mae'r sylwadau canlynol gan athrawon mewn sectorau ffurfiol ac anffurfiol yn crynhoi ac yn nodweddiadol o'r ymroddiad y gwnaethom ei wynebu:
- “(Rwy'n caru fy swydd oherwydd y) ...myfyrwyr. Maen nhw'n wych.”
- “Mae'n ffantastig bod yn y dosbarth gyda nhw i gyd a phopeth yr ydym yn ei ddwyn. I mi mater o bobl ydio i mi, rwyf wrth fy modd yn bod gyda phobl, yn rhyngweithio.”
- “Amrywiaeth yw'r peth i mi. Rwy'n meddwl ein bod yn cyflawni rhywbeth mewn dosbarth ESOL nad ydio'n digwydd mewn llawer maes mewn bywyd. Gallwch gael trafodaethau gyda phob crefydd, cenedl, pob math o bobl.”
- “Y cynnydd hefyd. Pan fyddwch chi'n eu gweld yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n wych iddyn nhw ond hefyd yn wych i ni ei weld. Maent yn gwneud bywyd iddyn nhw eu hunain yma, a pha mor hapus ydyn nhw am hynny.”
- 6.4 Roedd manyleb yr ymchwil yn eang gyda hyd at un ar bymtheg o feysydd o ddiddordeb wedi eu hamlygu. Roedd y dulliau ymchwil yn archwilio'r holl gwestiynau a ddynodwyd yn y fanyleb trwy ddull cymysg o arolwg, cyfweiliadau, grwpiau ffocws a fforymau ar-lein.

- 6.5 Casglwyd tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys athrawon, rheolwyr, dysgwyr ac awdurdodau lleol, yn ogystal â sefydliadau yn rhoi darpariaeth ESOL anffurfiol, asiantaethau cefnogi ehangach a Cymru'n Gweithio. Roedd manyleb yr adolygiad yn gofyn am archwilio ystod eang o feysydd. Mynediad at ddarpariaeth, ansawdd y dosbarthiadau a gynigiwyd, rhestrau aros a mathau o addysg a gynigiwyd ar draws Cymru a rhwng darparwyr ffurfiol ac anffurfiol. Er bod, yn gyffredinol, mwy o ddewisiadau i fudwyr mewn dinasoedd gwasgaru, mae penderfyniad y Swyddfa Gartref i ddechrau cartrefu pobl sy'n ceisio lloches yn llawer mwy eang yn golygu bod darparu addysg iaith ddigonol ar fin mynd yn fwy cymhleth eto.
- 6.6 Roedd y cyfanswm mawr o ddata ansoddol a meintiol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn yn profi'r gred bod darparwyr ESOL mewn sefyllfa allweddol i hyrwyddo cynhwysiant a llesiant mudwyr. Yn ychwanegol, mae'r canfyddiadau'n cadarnhau'r ddadl am fodelau mwy holistaidd, hyblyg o addysg iaith i gyd-fynd â'r ddarpariaeth ffurfiol bresennol. Hynny yw, mae dosbarthiadau ESOL mewn sefyllfa unigryw i chwarae mwy o ran wrth feithrin ymdeimlad o berthyn, dealltwriaeth a chyfrannu at gymdeithas Cymru, ond mae angen i athrawon a darparwyr gael eu cefnogi wrth hwyluso'r defnydd o'r dosbarth ESOL. Gall maes llafur cyfyngol a / neu ddiffyg addysg addas i athrawon atal gweithredu dull sy'n hwyluso llesiant emosiynol a seicolegol, yn ychwanegol at ddatblygu iaith y gall darpariaeth ESOL ei gynnig.
- 6.7 Mae'r argymhellion a nodir isod yn ceisio ymdrin â'r mater o lunio dull mwy cydlyn, diwniad o gynllunio ESOL. Maent hefyd yn ceisio darparu llwybrau i wneud y mwyaf o'r rhan y gall dosbarthiadau ESOL ei chwarae o ran llesiant mudwyr, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn. Mae'r argymhellion wedi cael eu grwpio dan y penawdau canlynol: Cyllid a Seilwaith, Ymwybyddiaeth a Mynediad, Cwricwlwm ac Ansawdd, REACH, ac Arall.

Argymhellion:

Cyllid a Seilwaith

6.8 Cyllid

Argymhelliad 1: Dylid llunio tasglu yn cynnwys darparwyr a Llywodraeth Cymru i adolygu'r model cyllido ESOL gyda'r nod o i) weithredu system well sy'n cydnabod symudedd y cohort o fyfyrwyr a ii) archwilio dewisiadau fyddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd a blaengaredd wrth redeg y cyrsiau. Yn benodol, y math o gyrsiau carlam, yn canolbwyntio ar gyflogaeth a chyfranogol y cyfeirir atynt trwy gydol yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 2: Dylai darparwyr trydydd sector gael eu cydnabod am y rhan y maent yn ei chwarae wrth ddarparu addysg iaith a'u cydgysylltiadau â chynhwysiant cymdeithasol. Dylai darparwyr o'r fath gael eu cefnogi gan gyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu cynlluniau addysg iaith dwys, ymatebol a chynhwysol.

Argymhelliad 3: Dylai cyllid Llywodraeth Cymru fod ar gael i golegau, awdurdodau lleol, a darparwyr ffurfiol eraill ar gyfer cynnwys cyrsiau heb eu hachredu fel dosbarthiadau sgwrsio a chysiau dwys, carlam.

6.9 Seilwaith

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i sicrhau bod grwpiau cydlynio a chynllunio ESOL (yn gyson â phob Partneriaeth Dysgu Oedolion ar draws Cymru efallai) yn cael eu sefydlu gyda threfnwyr arweiniol a gweithwyr datblygu. Gallai'r trefnwyr ESOL hyn gael eu rhwydweithio ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill i adolygu'r ddarpariaeth, dynodi bylchau a bod yn effro i'r galw neu broblemau cyflenwi.

Argymhelliad 5: Mae'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig model ar gyfer trefnu darpariaeth iaith. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu model tebyg ar gyfer ESOL yng Nghymru gyda chyfrifoldeb am arwain o ran datblygu cwricwlwm a chysiau, adnoddau i diwtoriaid a datblygu proffesiynol parhaus yn ogystal ag ymchwil, cyfeirio at gyrsiau a marchnata.

Ymwybyddiaeth a Mynediad

6.10 Ymwybyddiaeth

Argymhelliad 6: Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu tudalen wybodaeth ddigidol o ddarparwyr lleol, gyda manylion cyfredol am y ddarpariaeth.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu llwyfan genedlaethol ar gyfer ESOL a Chymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, gan annog yr holl ddarparwyr i gael proffil ar y safle i restru cyrsiau (ar-lein a byw) a dolen i'w safleoedd eu hunain.

Argymhelliad 8: Mae angen i gyfleusterau presennol e.e. hybiau REACH weithio'n fwy clos gyda darparwyr anffurfiol, yn arbennig y rhai mewn lleoliadau cymunedol, i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod am yr holl ddewisiadau sydd ar gael.

Argymhelliad 9: Dylai'r prif golegau a'r darparwyr awdurdod lleol gael eu galluogi/cyllido i gefnogi swyddog cyflogaeth / datblygu. Byddai swydd o'r fath yn galluogi gwell dealltwriaeth o anghenion holistaidd dysgwyr a hwyluso gwell cyswllt â phartneriaid allanol fel darparwyr trydydd sector, sefydliadau gwirfoddol, swyddogion gyrfaoedd, prifysgolion ac yn y blaen.

6.11 Mynediad

Argymhelliad 10: Dylai darparwyr ffurfiol ac anffurfiol gael eu galluogi, trwy fodel ariannu priodol, i ddylunio a chyflawni cyrsiau addysg iaith llawn-amser, dwys yn seiliedig, cyn belled ag y mae'n bosibl a dichonol, ar y dyheadau a nodir ar gyfer y cyfranogwyr.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am adolygiad o gyfleusterau creche ar safleoedd lle mae darpariaeth ffurfiol, gyda dilyniant i ymchwilio pam bod diffyg cyfleusterau a dod o hyd i atebion.

Argymhelliad 12: Dylai darparwyr gael eu hannog a'u cefnogi, trwy gyllid priodol, i dreialu cyrsiau carlam i ddysgwyr a ddynodwyd yn briodol.

6.12 Effaith dysgu o bell ac allgauedd digidol ar fynediad at ESOL.

Argymhelliad 13: Gallai'r dysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr Addysg Bellach a Dysgu Oedolion trwy [Jisc](#) gael ei gryfhau neu ategu ato, fel bod arweinwyr ac athrawon yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol sy'n cefnogi eu datblygiad wrth ymwreiddio dysgu digidol penodol i ESOL yn eu haddysgu a'u hymarfer. Byddai hyn yn hwyluso llunio wybodaeth o ran dylunio dysgu o bell ac addysgu cyfunol yn canolbwyntio ar ESOL yn effeithiol, yn ogystal â datblygu sgiliau addysgu ac asesu athrawon ymhellach.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a chomisiynu cyrsiau ar-lein/adnoddau dysgu y gellir eu cynnig ar draws Cymru. Byddai cyrsiau o'r fath yn briodol i lefel, i'r diben ar gyfer grwpiau targed penodol neu â phwyslais galwedigaethol.

Argymhelliad 15: Byddai Grŵp Tasg gyda phwyslais ar ddysgu digidol, cynyddu sgiliau digidol i ddysgwyr a datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr yn hyrwyddo argymhellion 13 ac 14.

6.13 Darpariaeth ESOL i'r rhai sy'n wynebu bregruswydd penodol

Argymhelliad 16: Mae angen adolygu trefniadau ar gyfer asesiad ADY ac i gefnogaeth fod ar gael i'r dysgwyr ESOL hynny sydd wedi dynodi bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Argymhelliad 17: Dylai'r adnoddau hyfforddi TrACE gael eu hyrwyddo a'u rhannu'n fwy eang ac maent yn offeryn defnyddiol i ddatblygu mwy o hyfforddiant penodol ar sail trawma ar gyfer y lleoliadau ESOL.

6.14 Mynediad at ESOL i'r rhai sy'n ddarostyngedig i wahanol statws mewnfudo

Argymhelliad 18: Dylid datblygu adnodd canolog ar-lein, wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, fyddai'n dwyn at ei gilydd yr holl ffrydiau ariannu sydd ar gael i ddysgwyr â statws mewnfudo amrywiol, gwybodaeth am hyd y cyllid a meini prawf cymhwyster clir.

Argymhelliad 19: Mae angen gweithredu darpariaeth i'r diben a chefnogaeth i fyfyrwyr dan 16 oed a rhoi dolenni mwy effeithiol at ddarparwyr ESOL (yn Lloegr mae colegau yn gallu cefnogi dysgwyr ESOL o 14 oed ymlaen).

Cwricwlwm ac Ansawdd

6.15 Dulliau Anffurfiol a Chyfranogol

Argymhelliad 20: Dylai cyllid Llywodraeth Cymru fod ar gael ar gyfer cyflwyno, profi ac adolygu prosiectau ar sail addysgu cyfranogol. Mae dull addysgu o'r fath yn cyd-fynd yn gryf â'r dyheadau Cenedl Noddfa o ran cynhwysiant a llesiant.

Argymhelliad 21: Dylai cyllid ESOL i golegau a darparwyr addysg oedolion eraill sydd wedi eu hachredu gynnwys cyfran benodol wedi ei dyrannu i gyflwyno cyrsiau anffurfiol, heb eu hasesu ar sail anghenion y dysgwyr.

Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mwy o gydlynw ac ymwybyddiaeth o'r potensial i wirfoddolwyr gefnogi dysgu iaith. Dylai darparwyr gael eu cefnogi i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant digonol a'u cefnogi i gyflawni eu rôl. Gall cefnogaeth gwirfoddolwyr yn y ddarpariaeth ESOL fod yn fuddiol, trwy gynyddu capasiti a rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr a'r cyfle i ymarfer eu sgiliau iaith. Mae hefyd yn gofyn am gynllunio gofalus a digon o gefnogaeth i'r rhai sy'n gwirfoddoli. Mae hyn yn helpu i osgoi peryglon fel 'disodli swyddi', lle gall swyddi gweithwyr proffesiynol am dâl gael eu cyfnewid am wirfoddolwyr.

Argymhelliad 23: Mae'r Gwirfoddolwyr yn y [prosiect Migrant Education](#) yn rhoi adnoddau i helpu i wahaniaethu rhwng gwahanol swyddogaethau gwirfoddolwyr. Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi cynhyrchu cyfarwyddyd ar [glybiau sgwrsio dan arweiniad gwirfoddolwyr](#), sy'n addas i'w defnyddio gan grwpiau cymunedol sy'n dymuno sefydlu clybiau sgwrsio anffurfiol. Mae cynllun y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol, [Siarad](#) yn cynnig model y gellid ei adolygu o ran sut y gallai fod yn berthnasol i leoliadau ESOL.

Argymhelliad 24: Dylid sefydlu Grŵp Tasg dan arweiniad ymarferwyr ESOL i adolygu a gwella problemau'n ymwneud â deunyddiau, asesiadau a methodoleg ESOL.

6.16 Datblygu'r Gweithlu

Argymhelliad 25: Mae angen ymdrin ag addysg athrawon penodol i ESOL ar lefel genedlaethol a dylai rhaglenni fod ar gael i ymarferwyr ar draws yr holl ddarpariaeth ac i'r holl staff presennol. Nid oes unrhyw raglen addysg athrawon penodol i ESOL ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

Argymhelliad 26: Mae angen buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cymhwyster addysg athrawon ESOL yng Nghymru. Dylid ymdrin ag anghenion y rhai sy'n gweithio yn y proffesiwn ESOL fel rhan o waith Datblygu Gweithlu ôl 16 Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 27: Dylid datblygu rhaglen datblygu proffesiynol parhaus i'r gweithlu ESOL, yn benodol mae angen ymwreiddio datblygu proffesiynol parhaus a hyfforddi

athrawon mewn ymarfer anghenion dysgu ychwanegol ac ar sail trawma sy'n benodol i ESOL.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cymru fod yn mynnu bod yr holl athrawon ESOL newydd yn meddu neu yn cytuno i astudio am gymhwyster penodol i ESOL.

Argymhelliad 29: Dylid archwilio Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Addysgu ESOL i ddatblygu, rhannu ymarfer a chydlynu addysg athrawon, datblygu proffesiynol parhaus a chefnogaeth i'r gweithlu. Dylai darparwyr gael eu hannog i gymryd rhan yn y gangen newydd o NATECLA yng Nghymru (Y Gymdeithas Genedlaethol i Addysgu Saesneg ac Ieithoedd Cymunedol Eraill i Oedolion).

6.17 Darpariaeth Gymraeg

Argymhelliad 30: Mae datblygiad y cwrs Croeso i Bawb wedi amlygu manteision cyfraniad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol at gynadleddau cenedlaethol a fforwm ESOL Cymru. Dylid chwilio am gyfleoedd i barhau'r cydweithio yma gyda'r Ganolfan a'r rhwydwaith o ddarparwyr ESOL.

Argymhelliad 31: Dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei chynnwys yn Fforwm ESOL Cymru a'r gangen o'r Gymdeithas Genedlaethol i Addysgu Saesneg ac Ieithoedd Cymunedol Eraill i Oedolion (NATECLA) sy'n datblygu yng Nghymru. Yn ychwanegol, dylid hwyluso cyfleoedd ar gyfer deialog gyda chyfarfodydd y Rhwydwaith Partneriaeth Dysgu Oedolion a gyda phob Partneriaeth Dysgu Oedolion Cymunedol ar draws Cymru.

6.18 ESOL a Chyflogaeth

Argymhelliad 32: Dylai Tasglu o ddarparwyr ESOL weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu modelau darpariaeth newydd. Byddai'r rhain yn cynnwys cyrsiau â phwyslais galwedigaethol, cyrsiau carlam dwys, a chyrsiau i ddysgwyr ar lefel sero. Dylai darparwyr gael eu cefnogi trwy beirianweithiau cyllido mwy hyblyg i greu a threalu darpariaeth i'r diben o'r fath.

Argymhelliad 33: Mae angen mwy o gydlynu ar draws y sianeli cefnogi cyflogaeth sy'n bodoli a rhaglenni a drefnir gan Cymru'n Gweithio ac eraill. Gallai hyn gael ei hwyluso gan argymhelliad 10

Argymhelliad 34: Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ddatblygu'r systemau a'r fframwaith angenrheidiol i gydnabod dysgu blaenorol i'w ymwreiddio wrth gefnogi'r holl fudwyr.

Argymhelliad 35: Dylai Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol chwarae rhan arweiniol wrth gysylltu â chyflogwyr i gydnabod gwerth galluogi mynediad at ddysgu yn y gwaith a chynnig amser o'r gwaith i fynd i ddsbarthiadau ESOL.

Argymhelliad 36: Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth i ddysgwyr ESOL mewn rhaglenni fel ReACT+ a byddai gwybodaeth gyson gan Cymru'n Gweithio yn uniongyrchol i'r rhwydweithiau ESOL yn fuddiol.

Argymhelliad 37: Yn unol ag argymhelliad 10, dylai cyfarwyddyd a chyngor i ddysgwyr ESOL gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli yn ogystal â chyfleoedd i dderbyn cefnogaeth gan asiantaethau fel Busnes Cymru, er enghraifft, er mwyn dysgu am lwybrau at hunangyflogaeth.

6.19 REACH

Argymhelliad 38: Dylid cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect REACH i asesu ei effeithiolrwydd ar hyn o bryd a dichonolrwydd ei gyflwyno trwy Gymru i gyd. Bydd mwy o frys i wneud hyn petai cynllun Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ehangu'r gwasgaru yn dod i rym.

Argymhelliad 39: Dylid cynnal adolygiad o sut y mae asesiadau cychwynnol yn cael eu cynnal. Byddai hyn yn cynnwys pwyslais ar sut y gellid gwella'r cyfathrebu â'r holl ddarparwyr; sut fyddai orau i drefnu hyfforddiant mewn defnyddio deunyddiau asesu cychwynnol a sut y byddai dull mwy holistaidd o gynnal asesiadau cychwynnol o werth.

6.20 Arall

Argymhelliad 40: Rydym yn awgrymu y dylai nifer o Becynnau Gwaith gael eu sefydlu, a Thasgluoedd cysylltiedig i gyd-greu atebion. Gallai'r Pecynnau Gwaith yma ganolbwyntio ar y meysydd canlynol.

Adolygiad o'r Model Cyllido

Cydlynu Cenedlaethol a Lleol

Llwyfan Ar-lein ar gyfer Ymwybyddiaeth/Mapio

Dysgu a Datblygu Proffesiynol i'r Gweithlu

Dysgu ac Addysgu Digidol

Blaengaredd Cwricwlwm, Deunyddiau ac Asesu

ESOL Galwedigaethol a Gwaith

Cyfyngiadau

- 6.21 Roedd heriau - roedd y nifer o feysydd i'w hymchwilio ynghyd â'r cyfyngiadau amser a chyllideb yn golygu na ellid archwilio rhai meysydd yn fanwl. Yn wir, byddai rhai materion ym manyleb yr ymchwil yn cael budd o ymchwilio ymhellach iddynt i roi rhagor o dystiolaeth a chyngor. Mae hyn yn berthnasol i'r meysydd canlynol:
- 6.22 Roedd cynhyrchu map manwl o'r ddarpariaeth ESOL gyfredol yng Nghymru yn anodd gyda'r adnoddau a'r amser oedd ar gael. Mae'r ymchwil wedi dynodi'r prif ddarparwyr ESOL ffurfiol ar draws Cymru, ond mae bylchau o hyd oherwydd nad oedd yn bosibl archwilio'r ystod o sefydliadau sy'n cefnogi ESOL yn anffurfiol ym mhob ardal yn llawn. Rydym yn awgrymu y byddai sefydlu cydlynu darpariaeth ESOL lleol effeithiol yn ffordd fwy cynhyrchiol o wneud hyn (ffurfiol/anffurfiol/ar-lein/byw). Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth barhaus a chyfredol am y ddarpariaeth, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd.
- 6.23 Roedd y cwestiynau ymchwil yn ceisio dynodi pa mor dda y mae'r ddarpariaeth ESOL yn cynnig cefnogaeth ddigonol ac amserol i'r rhai sy'n ddarostyngedig i statws mewnfudo amrywiol, y rhai sy'n wynebu bregrusrwydd penodol, a'r rhai sydd tu allan i'r dinasoedd gwasgaru. Casglwyd peth data a'i gofnodi yn neilltuol yng nghyswllt anghenion dysgu ychwanegol. Ond ychydig iawn o ddata a gasglwyd am unrhyw heriau penodol o ran addysg iaith i bobl sy'n ystyried eu hunain yn LHDTC+. Gall hyn fod yn ffaith oherwydd bod trafod materion yn ymwneud â gwleidyddiaeth, rhywioldeb a chrefydd yn gallu bod yn heriol i athrawon. Ychydig iawn o athrawon ESOL sydd ag unrhyw hyfforddiant mewn rheoli materion heriol yn y dosbarth. Ond mae, fodd bynnag, gorff cynyddol o ymchwil LHDTC+ o fewn ESOL ac mae hyn wedi arwain at ddeunyddiau addysg athrawon sy'n eithriadol o ddefnyddiol fel offer addysgu iaith, ac a all fod yn rhan ddefnyddiol o'r ddeialog barhaus o gwmpas cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Amlygodd ein hymchwil yr angen am raglen ddysgu a datblygu proffesiynol wedi ei chydlynu ar gyfer y gweithlu ESOL. Dylai cynnwys edefyn LHDTC+ yn y rhaglen hon gyda deunyddiau a hyfforddiant ymwybyddiaeth gael ei ddatblygu a'i gynnig fel un o'r pynciau.

7. Cyfeiriadau

Adolygiad Cyflym.

Chick, M. (2019). *ESOL in Wales: are we organised?* Language Issues: The ESOL Journal **30(1)**: 8-15.

Chick, M. a Iona Hannagan-Lewis (2019) *Language Education for Forced Migrants: Governance and Approach*. Languages, 4, 3, 1-19.

Crawley, H (2013). *Asylum seekers and refugees in Wales*. Wales Strategic Migration Partnership:

Equality, Local Government and Communities Committee (2017). *“I Used To Be Someone”*: *Refugees and Asylum Seekers in Wales*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Furlong, C. a J. Hunt (2009). *ESOL in Wales: Learning from the voluntary sector*. Research and Development, Informing Policy and Practice in Adult Learning.

Rees, A. (2010). *Review of the provision of English for speakers of other languages in Wales*. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019) *Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches*Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Williams, E (2017). *ESOL Mapping Report*. Wales Strategic Migration Partnership.

8. Atodiad A – Dadansoddiad o arolwg darparwyr ar-lein

Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg

- 8.1 Cynhaliwyd arolwg i ddarparwyr ar-lein yn ystod Ebrill a Mai 2022 gyda darparwyr ffurfiol ac anffurfiol.
- 8.2 Cynhaliwyd cynllun treialu ar y cwestiynau cychwynnol yn Ebrill 2022 gyda'r ymatebion yn arwain at adolygiad a diwygio'r arolwg cyn ei dosbarthu'n ehangach.
- 8.3 Dosbarthwyd yr arolwg darparwyr i dros 150 o sefydliadau ledled Cymru gan gynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg gymunedol i oedolion, awdurdodau lleol, sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol, a sefydliadau trydydd sector.
- 8.4 Ymatebodd 22 o ddarparwyr i'r arolwg, yn cynrychioli 20 o sefydliadau gwahanol sydd yn ardal 15 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Daeth llawer o'r ymatebion gan sefydliadau Addysg Bellach (10) ac awdurdodau lleol (7).

Tabl 8.1 – Ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal awdurdod lleol


Awdurdod Lleol	Ymatebion
Blaenau Gwent	1
Pen-y-bont ar Ogwr	2
Caerffili	1
Caerdydd	5
Sir Gaerfyrddin	1
Ceredigion	1
Sir y Fflint	1
Merthyr Tudful	1
Casnewydd	2
Sir Benfro	1
Rhondda Cynon Taf	1
Abertawe	1
Torfaen	1
Bro Morgannwg	1
Wrecsam	1

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Arolwg Darparwyr

Nodiadau'r tabl: Dynododd 21 o ymatebion yr ardal awdurdod lleol

- 8.5 Roedd yr holl ddarparwyr a ymatebodd wedi bod yn cyflwyno darpariaeth ESOL ers dros 3 blynedd, a Llywodraeth Cymru yn brif ffynhonnell cyllid iddynt. Defnyddir cyllid grant hefyd i ariannu darpariaeth ESOL trwy'r Gronfa Lloches, Mudo ac Integreiddio (AMIF), ysgoloriaethau, cytundebau rhyddfraint gyda cholegau, cyllid ReACT a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.
- 8.6 Gall mwyafrif llethol y dysgwyr sy'n oedolion (19+) gael mynediad at ddarpariaeth ESOL y darparwyr am ddim gyda 18 ymatebwr yn dynodi bod yr holl oedolion, neu bron y cyfan o'r oedolion yn defnyddio darpariaeth am ddim, gyda dim ond un sefydliad yn dweud bod pawb, neu bron bawb yn gorfod talu.
- 8.7 Mae bron i chwarter y darparwyr (6) yn cyflwyno darpariaeth sy'n cael ei chyd-ariannu, mae'r rhain yn cynnwys y dysgwyr yn ariannu eu hunain, ffioedd myfyrwyr rhyngwladol, ac AMIF.
- 8.8 Mae mwyafrif y darparwyr (14 i gyd) yn cyflwyno darpariaeth ESOL rhwng Cyn mynediad â Lefel Mynediad 3. Mae nifer fawr yn cyflwyno darpariaeth ESOL Lefel 1 a Lefel 2 (20 o'r 22 o ddarparwyr a lenwodd yr arolwg).

Ffigwr 8.1 - Lefelau'r Ddarpariaeth ESOL



Ffynhonnell: Ymatebion i'r Arolwg Darparwyr

8.9 Dynododd nifer fechan o ddarparwyr bod eu darpariaeth ESOL yn cael ei chyflwyno mewn dosbarthiadau lefel cymysg gyda dim ond 3 yn dynodi eu bod yn cymysgu lefelau ESOL mewn grwpiau eang neu unrhyw lefelau mewn dosbarthiadau. Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr oedd yn rhoi ymateb mewn testun rhydd i ddisgrifio eu darpariaeth lefelau cymysg mai dim ond os oedd y niferoedd yn isel yr oeddent yn cynnig dosbarthiadau lefel cymysg.

'Pan fydd y niferoedd yn isel yna cynhelir dosbarthiadau cymysg'

'Mae'r dosbarthiadau cymysg oherwydd niferoedd isel, wrth i'r niferoedd gynyddu, byddwn yn gallu darparu dosbarthiadau un lefel'

- 8.10 Dynodwyd bod hyd cwrs nodweddiadol ar gyfer darpariaeth ESOL yn hwy na 13 wythnos gydag 16 o'r darparwyr yn ymateb i hyn, dim ond 3 darparwr oedd yn darparu cyrsiau byrrach na hyn (rhwng 6-13 wythnos) ac nid oedd unrhyw ddarparwyr yn rhoi darpariaeth ESOL am lai na 6 wythnos. Mae 12 o'r 16 o ddarparwyr a ymatebodd hefyd yn cynnig cofrestru parhaus gyda phedwar darparwr yn cofrestru yn unig ym Medi/Ionawr, ac un yr un ar gyfer Medi yn unig/bob tymor/bob hanner tymor.
- 8.11 Cyflwynir darpariaeth ESOL lawn-amser gan 19 o'r darparwyr a ymatebodd. Gydag 11 darparwr yn cyflwyno llai na 14 awr. 9 darparwr yn cyflwyno 14-17 awr a dim ond un darparwr yn cyflwyno dros 17 awr yr wythnos.
- 8.12 Cyflwynir darpariaeth ESOL rhan-amser dros gyfartaledd o 9 awr yr wythnos ar gyfer yr 1 darparwr a ymatebodd. Gydag 17 darparwr yn cyflwyno llai na 10 awr a dim ond pedwar yn cyflwyno dros 10 awr.
- 8.13 Dynododd pymtheg o ddarparwyr eu bod yn cynnig cefnogaeth i alluogi dysgwyr i gael mynediad at eu darpariaeth, mae'r rhain yn cynnwys, 6 yn cynnig help gyda chostau teithio, 5 darparwr yn helpu gyda chostau astudio (deunyddiau'r cwrs ac ati) a phedwar gyda chyfleusterau crèche a/neu gefnogaeth arall gydag anghenion gofal plant.
- 8.14 Mae dau ar bymtheg yn cynnig darpariaeth wedi ei hachredu gan gynnwys Cymhwyster ESOL Sgiliau Bywyd, Dyfarniadau ar sail unedau mewn Saesneg, Sgiliau Hanfodol Saesneg, a Chymhwyster Saesneg Rhyngwladol (e.e. Tystysgrif Gyntaf Caergrawnt / IELTS)
- 8.15 Mae un ar bymtheg o ddarparwyr yn cynnig cymwysterau nad ydynt yn rhai ESOL i ddysgwyr yn y ddarpariaeth ESOL. Amlygwyd y cymwysterau hyn fel Sgiliau Hanfodol, Cyflogadwyedd, Digidol a Galwedigaethol i baratoi dysgwyr ar gyfer gwaith.

- 8.16 Mae pedwar ar ddeg o ddarparwyr yn cynnig darpariaeth ESOL heb ei hachredu gyda nifer yn dynodi'r rhain fel cyrsiau galw heibio, parhaus neu flasu/ymgysylltu ac yn rhai sgyrsiol yn bennaf sy'n gwneud achredu yn anodd.
- 8.17 Ymatebodd ugain o ddarparwyr eu bod yn cyflwyno darpariaeth ESOL gyffredinol i ddysgwyr, fe wnaethant ddynodi hefyd y darpariaeth dysgu ieithoedd eraill y maent yn eu cynnig, gyda 7 yn cynnig ESOL dysgu teuluol, 5 yn cynnig ESOL i oedolion ifanc (16-19), pedwar yn cynnig darpariaeth ESOL un rhyw - Menywod yn unig, pedwar yn cynnig darpariaeth llythrennedd ESOL, 3 yn cynnig darpariaeth iaith ar gyfer dibenion proffesiynol penodol (e.e. meddygol, addysgu ac ati) 3 yn cynnig darpariaeth alwedigaethol gydag ESOL yn rhan ohono. Dim ond 2 yn cynnig Cymraeg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, ac un yn cynnig darpariaeth ESOL un rhyw i ddynion yn unig. Nid oedd yr un o'r darparwyr yn dynodi eu bod yn cynnig ESOL i oedolion ifanc (14-16).
- 8.18 Dywedodd dau ddarparwr a ymatebodd eu bod yn cynnig darpariaeth ESOL+ i ddysgwyr sy'n cynnwys, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gweinyddu Busnes, Cyfrifyddiaeth, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gwallt a Harddwch, Lletygarwch, Gwaith Coed, a Chyflogadwyedd. Dywedodd darparwr arall bod gan ddysgwyr ESOL Lefel 1 y dewis i astudio pwnc galwedigaethol ar sail ran-amser yn ychwanegol at eu prif raglen ESOL.
- 8.19 Dywedodd dros hanner y darparwyr a ymatebodd eu bod yn cynnig dosbarthiadau darpariaeth ESOL i'r diben i gefnogi pobl i waith neu gadw gwaith. Dynododd y darparwyr bod y dosbarthiadau hyn yn rhai Sgiliau Cyflogadwyedd, Saesneg Gwaith, ac ESOL ar gyfer cyflogadwyedd. Amlygodd un darparwr hefyd eu bod yn cynnig dosbarthiadau i fusnesau dros hanner tymor neu wyliau i'w staff gael mynychu. Yn ychwanegol at hyn, roedd darparwyr hefyd yn cynnig dosbarthiadau ESOL i'r diben ar gyfer dibenion eraill fel Dinasyddiaeth, cyrsiau Theori gyrru, Iechyd a Llesiant, llythrennedd ariannol a Gwasanaethau cwsmeriaid.
- 8.20 Ymatebodd chwe darparwr eu bod yn cynnig y cyfle i ddosbarthiadau i ddysgu Cymraeg yn ogystal â, neu yn lle Saesneg. Er nad yw rhai o'r darparwyr yma yn cyflwyno'r darpariaeth hon ar hyn o bryd, fe wnaethant ddynodi cynlluniau i

ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr a chyflwyno dosbarthiadau sgwrsio Cymraeg yn y dyfodol.

- 8.21 Dynododd tri ar ddeg o'r 17 darparwr a ymatebodd i gyflwyno darpariaeth ar-lein, fanteision buddiol gallu cynnig darpariaeth fwy hyblyg a nododd 7 bod y ddarpariaeth ESOL ar-lein yn fwy hygyrch. Dynododd 3 darparwr hefyd bod cynnydd mewn dysgwyr ESOL ar-lein.
- 8.22 Dynododd darparwyr hefyd eu bod yn wynebu rhai rhwystrau o ran dysgu ar-lein, gyda 15 darparwr yn dweud bod problemau gan nad oedd gan ddysgwyr y sgiliau angenrheidiol i ddysgu ar-lein. 13 o ddarparwyr yn dweud bod mynediad at fand eang yn rhwystr. 12 darparwr yn gweld mynediad at yr offer perthnasol yn broblem i rai dysgwyr. 5 darparwr a ymatebodd yn dynodi bod gostyngiad wedi bod yn y nifer o ddysgwyr ESOL ar-lein.
- 8.23 Nododd wyth o ddarparwyr a ymatebodd bod y ddarpariaeth ar-lein wedi arwain at fwy o bresenoldeb gan grwpiau na chlywir yn aml. Gyda 6 darparwr yn dweud nad oedd wedi cynyddu a 7 ddim yn gwybod. Gydag 11 darparwr yn dweud bod dysgu ar-lein yn cynnig y cyfle i ddarparu ESOL i fwy o bobl nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cysylltu â'r ddarpariaeth gywir ar gyfer eu lefel/hanghenion.
- 8.24 Dywedodd un ar ddeg o ddarparwyr nad oedd cyflwyno ar-lein wedi effeithio ar yr amseroedd aros am ddarpariaeth. Dywedodd 6 o ddarparwyr bod effaith wedi bod ar amser aros ac nid oedd 3 darparwr yn gwybod a oedd wedi effeithio ar amseroedd aros.
- 8.25 Dynododd naw o ddarparwyr bod eu darpariaeth ESOL yn gysylltiedig â gwasanaethau cefnogi arbenigol. Amlygir y gwasanaethau cefnogi yma yn y tabl isod. Dynododd rhai darparwyr hefyd gysylltiadau gyda gwasanaethau fel rhaglenni adsefydlu ffoaduriaid yn eu cynghorau lleol a chefnogaeth noddfa.

Tabl 8.2 – Gwasanaethau Cefnogi Arbenigol y mae'r ddarpariaeth ESOL yn gysylltiedig â nhw

Gwasanaeth Cefnogi Arbenigol	Nifer o Ddarparwyr gyda darpariaeth ESOL gysylltiedig
Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd	8
Cyflogaeth	6
Iechyd Meddwl	3
Digartrefedd	2
Masnachu Mewn Pobl	2
Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol	2
Anabledd	2
Trais domestig	1
Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Cwiar/Pobl sy'n Cwestiynu (LHDTC+) (gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau eraill gan gynnwys anneauaid)	1

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Arolwg Darparwyr

- 8.26 Nododd pymtheg o'r darparwyr a ymatebodd eu bod yn cofnodi a monitro presenoldeb dysgwyr, eu cynnydd a'u deiliannau trwy systemau rheoli gwybodaeth mewnol. Cesglir adborth gan ddysgwyr trwy ddulliau amrywiol sy'n cynnwys Arolygon, Cynlluniau Dysgu Unigol a fforymau Dysgwyr. Mae amlder y rhain yn amrywio rhwng darparwyr ac yn ymestyn o arolygon bob tymor, i fforymau dysgwyr ar ddiwedd y flwyddyn.
- 8.27 Mae tri ar ddeg o'r darparwyr a ymatebodd yn rhannu data di-enw er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Disgrifiodd rhai darparwyr eu bod yn defnyddio systemau rheoli gwybodaeth er mwyn casglu data yn drefnus all gael ei gadw'n ddiogel.

- 8.28 Ymatebodd un ar bymtheg o ddarparwyr gyda lefel fras y dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth ESOL yn flynyddol, gyda'r cyfanswm yn 4,563. O'r 16 o ddarparwyr a ymatebodd, mae gan 7 darparwr 399 o ddysgwyr sy'n 16-19 oed. Mae gan 5 darparwr 179 o ddysgwyr sy'n 20-24 oed, mae gan 10 darparwr 680 o ddysgwyr 25-54 oed, ac mae gan 8 darparwr 3,305 dysgwr sy'n 55+ (er ei bod yn werth nodi yma bod 2 allan o'r 8 darparwr yn cyfrif am 3,000 o'r dysgwyr yma).
- 8.29 Prif nodweddion y galw am ddarpariaeth ESOL yw cyrsiau lefel Mynediad gydag 11 o'r 20 darparwr a ymatebodd yn dynodi hyn. Dim ond 2 ddarparwr sy'n nodi nad oes un prif nodwedd i'r dysgwyr, ond ystod amrywiol. Ymatebodd 1 darparwr bod y galw'n fawr am ddarpariaeth ran-amser neu fin nos ar Lefel 1 a 2.
- 8.30 Roedd chwech o'r 19 darparwr a ymatebodd yn ystyried bod gormod am ddilyn eu darpariaeth ESOL. Dynododd 3 darparwr bod gormod yn ymgeisio am y ddarpariaeth cyn mynediad a lefel mynediad a dywedodd 6 mai prinder tiwtoriaid cymwys a chyllid oedd y prif broblemau yr oeddent yn eu hwynebu. Cofnododd 1 darparwr, er bod lle yn y dosbarthiadau, nad yw'r cyllid ar gael i ddysgwyr gymryd y lleoedd yma.
- 8.31 Pan holwyd am amseroedd aros ar gyfer eu darpariaeth ESOL, dywedodd 5 o'r 12 darparwr a ymatebodd bod yr amser aros yn isel neu nad oedd o gwbl i'w dysgwyr. Roedd yr amseroedd aros a ddynodwyd gan y 7 darparwr oedd yn weddill yn amrywio o 1 wythnos i 15 wythnos ar draws yr holl lefelau cymhwyster.
- 8.32 Dynododd deg darparwr y byddai cynnydd yn argaeledd ymarferwyr ESOL addas yn helpu i liniaru unrhyw ormoddedd yn y ddarpariaeth ESOL, fel y byddai cynnydd yn y cyllid cyffredinol (8), mwy o argaeledd o ran lleoliadau addas (6) a chynnydd yn y cyllid ar lefelau ESOL penodol (5). Roedd bron i chwarter y darparwyr (3) yn meddwl y byddai mwy o gydlynw o ran asesiad cychwynnol dysgwr a'u rhoi mewn darpariaeth briodol, ochr yn ochr, a chefnogaeth ar gyfer mwy o flaengaredd wrth gyflwyno hefyd yn helpu i liniaru'r gordanystrifio. Gydag un darparwr yn dweud y byddai mwy o gefnogaeth/fframwaith ar gyfer cefnogaeth gwirfoddolwyr ar gyfer sgwrsio/mentora yn helpu.
- 8.33 Mae'r enghreifftiau eraill o farn darparwyr am yr hyn fyddai'n helpu i leihau gordanystrifio yn cynnwys,

'Gweithio mwy effeithiol mewn partneriaeth ar lefelau cenedlaethol a lleol'

'Mwy o hyblygrwydd yn y rheolau cyllido Addysg Bellach ar gyfer y cwricwlwm ESOL'

- 8.34 Roedd deuddeg o ddarparwyr yn meddwl y byddai cynnydd yn y gefnogaeth ar gyfer anghenion gofal plant/cyfleusterau crèche a chefnogaeth i gostau teithio dysgwyr yn helpu mwy o ddysgwyr i gael mynediad at y ddarpariaeth ESOL. Dywedodd 6 darparwr y byddai cynnydd yn y cyllid yn gyffredinol yn caniatáu darpariaeth ehangach ar amseroedd a lefelau gwahanol ac i 5 darparwr cynnydd mewn cyllid yn benodol i gynnig mwy o ddarpariaeth ESOL am ddim a fyddai hefyd o bosibl yn helpu mwy o ddysgwyr i gael mynediad at ddarpariaeth ESOL.
- 8.35 Mae tri ar ddeg o'r darparwyr a ymatebodd yn cyflwyno darpariaeth ESOL mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mae 13 o'r darparwyr a ymatebodd yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i gynllunio eu darpariaeth ESOL.
- 8.36 Roedd sylwadau'r darparwyr yn awgrymu mai'r prif bartneriaethau a ddatblygwyd yw'r rhai gyda sefydliadau o'r trydydd sector, awdurdodau lleol a Chanolfan Byd Gwaith. Dywedodd nifer o ddarparwyr hefyd eu bod yn gweithio mewn partneriaethau sy'n anelu at ymdrin yn benodol ag anghenion ffoaduriaid.
- 8.37 Pan ofynnwyd iddynt beth yr oedden nhw'n ei weld fel y broblem amlycaf sy'n wynebu'r ddarpariaeth ESOL yng Nghymru, dynododd 11 o'r 20 darparwr a ymatebodd mai recriwtio a chadw tiwtoriaid cymwys oedd y broblem amlycaf. Dynododd 5 darparwr bod cyllid yn broblem, o ran lefelau'r cyllid, a hyblygrwydd o ran yr hyn y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer.

9. Atodiad B – Dadansoddiad o arolwg ar-lein ymarferwyr

Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg

- 9.1 Cynhaliwyd arolwg ymarferwyr ar-lein yn ystod Ebrill a Mai 2022.
- 9.2 Cynhaliwyd cynllun treialu ar y cwestiynau cychwynnol yn Ebrill 2022 gyda'r ymatebion yn arwain at adolygiad a diwygio'r arolwg cyn ei dosbarthu'n ehangach.
- 9.3 Dosbarthwyd yr arolwg ymarferwyr i dros 150 o sefydliadau ledled Cymru gan gynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg gymunedol i oedolion, awdurdodau lleol, sefydliadau hyfforddiant galwedigaethol, a sefydliadau trydydd sector.
- 9.4 Ymatebodd pumdeg un o ymarferwyr i'r arolwg, yn cynrychioli 22 o sefydliadau gwahanol ar draws 13 awdurdod lleol yn cynnwys Abertawe, Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Torfaen, a Wrecsam.
- 9.5 Roedd 23 o'r ymatebion gan ymarferwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach (AB). Roedd 6 ymarferwr o awdurdodau lleol. Roedd pedwar ymarferwr o'r trydydd sector sy'n cael ei ariannu a 9 o'r Trydydd Sector gwirfoddol. Roedd y gweddill yn anhysbys.
- 9.6 Mae contractau ymarferwyr yn bennaf yn rhai ffracsiynol gyda 15 o ymarferwyr yn nodi mai dyma'r math o gontract oedd ganddynt. Cofnododd 11 ymarferwr bod ganddynt oriau sesiynol – ar gontract, roedd gan 8 gontractau llawn-amser, 8 fel gwirfoddolwyr a phedwar fel contractau sesiynol – 'dim oriau' / asiantaeth. Roedd y gweddill yn anhysbys.
- 9.7 Mae pump ar hugain o'r ymarferwyr a ymatebodd wedi bod yn addysgu darpariaeth ESOL am dros 10 mlynedd, 7 am 5-10 o flynyddoedd, 6 am 2-5 mlynedd a 6 mis i 2 flynedd, gyda 5 ymarferwr yn addysgu darpariaeth ESOL am lai na 6 mis.

- 9.8 Dim ond 1 o bob 5 o ymarferwyr ESOL a ymatebodd sy'n addysgu pynciau eraill yn ogystal ag ESOL.
- 9.9 Ymatebodd tri ar ddeg o ymarferwyr bod ganddynt dystysgrif mewn Dysgu Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill, ymatebodd 10 ymarferwr bod ganddynt arbenigedd pwnc TAR mewn llythrennedd a/neu ESOL. Roedd gan 7 Ddiploma Lefel 5 QCF mewn Addysg a Hyfforddi (gan gynnwys Addysgu Saesneg: ESOL). Roedd gan 6 ymarferwr MA mewn Addysgu Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill. Roedd gan 3 ymarferwr Ddiploma mewn Addysgu Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill (DELTA).
- 9.10 Mae dau o'r ymarferwyr a ymatebodd ar hyn o bryd yn astudio am gymhwyster yn gysylltiedig ag ESOL. Gyda 10 o'r ymarferwyr yn cyfeirio at naill ai amser neu gost fel y rhwystr y maent yn ei wynebu sy'n eu hatal rhag astudio cymhwyster yn ymwneud ag ESOL ar hyn o bryd.
- 9.11 Roedd saith o'r ymarferwyr a ymatebodd yn aelod o sefydliad proffesiynol penodol i ESOL, sy'n cynnwys NATECLA (Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Saesneg ac leithoedd Cymunedol), IATEFL (Cymdeithas Ryngwladol Athrawon Saesneg fel Iaith Dramor) a LESLLA (Addysg Llythrennedd a Dysgu Ail Iaith i Oedolion).
- 9.12 Dywedodd tri deg pedwar o ymarferwyr a ymatebodd nad ydynt yn teimlo bod ganddynt y cyfle na'r gefnogaeth angenrheidiol i rwydweithio gyda chymheiriaid, gyda rhai o'r rhesymau a ddynodwyd yn cynnwys diffyg amser, gwasgariad daearyddol cymheiriaid, diffyg ymwybyddiaeth o gefnogaeth a chyfleoedd, ynghyd â'r pandemig COVID-19 yn achosi i lawer o ddigwyddiadau/cynadleddau gael eu gohirio/canslo.
- 9.13 Dynododd ymarferwyr mai datblygu rhwydwaith ESOL gydag aelodau o blith darparwyr ac ymarferwyr fyddai'r math o gefnogaeth fyddai'n eu galluogi i rwydweithio gyda chymheiriaid. Gwnaeth rhai ymarferwyr y sylw y byddai hyn yn hwyluso rhagor o gyfleoedd ar gyfer trafodaeth â chymheiriaid a rhannu arfer gorau ar draws Cymru.

- 9.14 Mae pedwardeg dau o'r ymarferwyr a ymatebodd yn defnyddio datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi'r modd y maent yn cyflwyno.
- 9.15 Roedd pymtheg o ymarferwyr wedi dynodi gofynion datblygu proffesiynol parhaus sydd angen ymdrin â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant manwl i ddarparu ESOL i ffoaduriaid bregus, yn arbennig materion yn gysylltiedig ag iechyd meddwl a thrawma. Cyflawni ESOL trwy gyfryngau digidol a chyflawni darpariaeth aml-lefel mewn un dosbarth.
- 9.16 Roedd pedwar deg pedwar o'r 51 o'r ymarferwyr a ymatebodd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel ymarferwr yn y sector ESOL. Cyfeiriodd 7 nad oedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi at weithio eu hunain ar-lein fel rheswm, ynghyd â'r flaenoriaeth a roddir i ddisgyblaethau eraill ac nid yw'r contractau dim oriau a wynebwr gan lawer yn adlewyrchu'r gwaith sydd ei angen yn ychwanegol at yr oriau dysgu.
- 9.17 Mae pedwar deg chwech o ymarferwyr yn darparu darpariaeth ESOL gyffredinol i oedolion, gydag 8 yn darparu ESOL i oedolion ifanc 16-19, a 7 yn cynnig darpariaeth llythrennedd ESOL i ddysgwyr. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw ymarferwr a ymatebodd yn rhoi Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill na darpariaeth ESOL i un rhyw - i ddynion yn unig.

Tabl 9.1 – Darpariaeth ESOL a gyflwynir ar hyn o bryd

Darpariaeth	Nifer o ymarferwyr
Darpariaeth ESOL gyffredinol i oedolion	46
Darpariaeth llythrennedd ESOL	7
ESOL i oedolion ifanc – 16-19	8
Darpariaeth ESOL un rhyw – Menywod yn unig	5
Dysgu Teuluol ESOL/Darpariaeth iaith	2
Darpariaeth iaith ar gyfer dibenion proffesiynol penodol*	2
ESOL i oedolion ifanc 14-16	1
Darpariaeth alwedigaethol i oedolion gydag ESOL yn rhan ohono neu gefnogaeth iaith	2
Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill	0
Darpariaeth ESOL un rhyw – Dynion yn unig	0

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Arolwg Darparwyr

*e.e., Meddygol neu Addysgu

- 9.18 Mae trideg chwech o'r 51 o ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu ar-lein. Gyda 34 o'r ymarferwyr hynny yn cofnodi'r gallu i gynnig darpariaeth hyblyg, a 26 yn nodi bod y gallu i gynnig darpariaeth fwy hygyrch wedi gweithio. Nododd un ymarferwr mai un fantais oedd:
- 9.19 *'Cyfuno myfyrwyr o wahanol safleoedd i ffurfio clybiau sgwrsio.'*
- 9.20 Cofnododd dau ymarferwr bod dysgu ar-lein wedi gwella lefelau llythrennedd digidol ymhlith y dysgwyr hynny oedd yn gallu cael mynediad rhwydd at offer TG.
- 9.21 Dywedodd traean (13) o'r ymarferwyr a ymatebodd bod cynnydd yn y dysgwyr ESOL ar-lein.
- 9.22 Nododd trideg chwech o ymarferwyr bod y sgiliau i ddysgu ar-lein yn broblem. Ynghyd â 29 yn nodi bod mynediad at fand eang a 27 yn nodi bod mynediad at offer perthnasol yn broblemau eraill y maent yn eu hwynebu.
- 9.23 Amlygodd un ymarferwr y byddent yn croesawu dull dysgu cyfunol o ddarparu ar-lein i fanteisio ar y manteision a gofnodwyd i ddysgu o bell, fel mwy o hyblygrwydd i'r rhai â chyfrifoldebau gofal plant. Er bod angen cydnabod y byddai rhai grwpiau o ddysgwr (lefel is, ffoaduriaid, a cheiswyr lloches) yn cael llawer mwy o fudd o ddarpariaeth wyneb yn wyneb.
- 9.24 Dywedodd dau a'r bymtheg o ymarferwyr a ymatebodd bod dysgu ar-lein wedi arwain at fwy o bresenoldeb gan grwpiau na chlywir yn aml. Gydag un ar hugain o ymarferwyr yn nodi nad oeddent yn gwybod os oedd y presenoldeb yn fwy neu beidio.
- 9.25 Nid oedd dros hanner (25) o'r ymarferwyr hynny a ymatebodd yn gwybod a oedd y ddarpariaeth ar-lein wedi effeithio ar unrhyw amseroedd aros i ddysgwyr, gydag 16 ymarferwr yn nodi nad oedd wedi effeithio ar amseroedd aros.
- 9.26 Cytunodd un ar hugain o'r 47 o ymarferwyr a ymatebodd bod dysgu ar-lein yn cynnig y cyfle i ddarparu ESOL i fwy o bobl nad ydynt ar hyn o bryd yn

gallu cysylltu â'r ddarpariaeth gywir ar gyfer eu lefel/hanghenion. Nododd 22 o ddarparwyr nad oeddent yn gwybod.

- 9.27 Nododd ymarferwyr a roddodd sylwadau testun rhydd eu bod yn gallu cofnodi presenoldeb trwy systemau canolog, mewn colegau addysg bellach yn aml. Dywed rhai ymarferwyr bod monitro presenoldeb yn fwy heriol ar gyfer sesiynau galw heibio.
- 9.28 Mae darlun cymysg o ran adborth dysgwyr, gyda rhai ymarferwyr a roddodd sylwadau testun rhydd am sut y rhoddir adborth yn nodi eu bod yn rhoi adborth ffurfiol trwy arolygon a systemau electronig fel Microsoft Forms (14 ymarferwr), tra bod 8 ymarferwr yn nodi eu bod yn rhoi'r adborth yn anffurfiol mewn sgysiau wyneb yn wyneb gyda'r dysgwyr.
- 9.29 Nid yw deugain o'r 46 o ymarferwyr a ymatebodd naill ai yn rhannu data di-enw, neu nid ydynt yn gwybod a ydyn nhw'n rhannu data di-enw, ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd.
- 9.30 Dynododd saith o ymarferwyr ddiffyg athrawon cymwys fel problem amlwg yn effeithio ar y ddarpariaeth. Mae tystiolaeth hefyd nad oes digon o niferoedd o ddsbarthiadau ar gael i fodloni'r galw gan ddysgwyr. Mewn sylwadau testun rhydd, mynegodd rhai ymarferwyr angen am fwy o gefnogaeth llesiant i rai grwpiau o ddysgwyr, yn arbennig ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cyfeirir at ddiffyg gofal plant yn aml yn y sylwadau hyn gan nifer o ymarferwyr fel rhwystr sy'n atal dysgu i fenywod.
- 9.31 Mae gan wyth ymarferwr y farn y byddai rhagor o ddarpariaeth heb ei hachredu yn fuddiol gyda llai o ofynion lefel a mynediad, gan y byddai hyn yn gadael i ymarferwyr ganolbwyntio ar yr hyn sydd ar y dysgwr ei angen, yn hytrach na'r hyn sydd arnynt ei angen i gael cymhwyster. Amlygodd 1 ymarferwr, er bod angen am ddarpariaeth cyn mynediad, bod gan y dysgwyr hynny yn aml broffiliau pigog, felly nid ydynt yn ffitio i ddsbarthiadau arferol yn rhwydd. Dywedodd un arall, er bod y meini prawf mynediad neu gynnydd yn fychan iawn i'r lefelau is, nid yw hyn yn achosi problemau pan fydd y dysgwyr yn cyrraedd Mynediad 3 neu Lefel 1, gan

nad oes ganddynt y sgiliau i ymdopi. Dynododd 4 ymarferwr bod gofal plant neu gostau teithio yn dal i gau dysgwyr allan o'r ddarpariaeth.

10. Atodiad C – Dadansoddiad o arolwg ar-lein dysgwyr

Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg

- 10.1 Cwblhaodd un ar hugain o ddysgwyr yr arolwg. Mae 17 o'r dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng 25 a 55 oed, roedd 17 yn dynodi eu bod yn fenywod, ac roedd 17 hunaniaeth genedlaethol yn cael eu cynrychioli. Roedd 18 o'r dysgwyr yn ddi-waith, gyda 6 â dyletswyddau gofal plant
- 10.2 Roedd tri ar ddeg o'r dysgwyr a ymatebodd yn astudio darpariaeth ESOL ran-amser ac 8 yn astudio darpariaeth ESOL lawn amser.
- 10.3 Roedd mwyafrif y dysgwyr a ymatebodd (15) yn astudio darpariaeth Fynediad Lefel 3 neu cyn-ganolradd. Mae un dysgwr yn astudio Lefel Mynediad 2 neu ddechreuwr uwch ac roedd 2 ddysgwr yr un yn astudio darpariaeth Lefel Mynediad 1 a chyn mynediad. Nid oedd unrhyw ddysgwyr a ymatebodd oedd yn astudio lefelau 1 neu 2.
- 10.4 Rhoddodd y dysgwyr amrywiaeth o resymau pan eu bod yn mynd i ddosbarthiadau, roedd 14 o ddysgwyr yn mynychu er mwyn gallu byw'n annibynnol, nododd 12 dysgwr mai i'w helpu i ddod o hyd i waith yr oeddent yn mynychu, roedd bron eu hanner (10) yn mynychu i gyfarfod pobl a dod i adnabod ffrindiau newydd. Nododd 5 dysgwr eu bod yn gyflogedig ac yn mynychu i'w helpu i gael gwaith gwell. Roedd pedwar arall o'r dysgwyr yn mynychu am fod eu plant yn siarad Saesneg/Cymraeg.
- 10.5 Dim ond 2 o'r dysgwyr a ymatebodd sydd yn gwneud unrhyw waith gwirfoddol ar hyn o bryd, er bod 5 o'r dysgwyr wedi nodi eu bod yn gwirfoddoli i gefnogi dysgwyr ESOL eraill. Hoffai 12 o'r dysgwyr a ymatebodd wirfoddoli yn y dyfodol.

- 10.6 Nid oedd yr un o'r dysgwyr yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, ond nododd 5 y byddent yn hoffi dysgu Cymraeg yn y dyfodol.
- 10.7 Mae bron i hanner y dysgwyr (10) yn mynychu dosbarthiadau ar-lein ar hyn o bryd. Gyda rhai yn dweud:

'Rwyf wedi cael profiad da, ond rwy'n fwy hoff ohono wyneb yn wyneb'

'Dwi gartref pan fydd fy merch yn dod yn ôl o'r ysgol'

- 10.8 Dynododd wyth o ddysgwyr bod rhai rhwystrau y maent wedi eu hwynebu o ran dysgu ar-lein, mae'r rhain yn cynnwys, problemau cysylltu â'r rhyngrwyd, methu canolbwyntio'n rhwydd, dim cymaint o ganolbwyntio â gydag athro
- 10.9 Mae'r gweithgareddau ESOL a ddynodwyd fel y rhai yr oedd dysgwyr yn eu mwynhau fwyaf yn cynnwys, gweithgareddau sgwrsio, gweithio mewn grwpiau bach, siarad, a gwneud ffrindiau.
- 10.10 Dynododd dysgwyr rai o'r sialensiau y maent yn eu hwynebu am ddosbarthiadau ESOL yn y sylwadau testun rhydd. Roedd y sylwadau hyn yn amlygu peidio â bod â digon o amser i wneud ymarferion tu allan i'r dosbarth (gwaith cartref), peidio â deall yr athro, ysgrifennu, a'r hyder i siarad â phobl eraill.
- 10.11 Roedd dau ar bymtheg o ddysgwyr yn hapus gyda'r ddarpariaeth ESOL yr oeddent yn ei mynychu ond nid oeddent yn nodi y byddai mwy o ddosbarthiadau yn gwella eu profiad o ESOL.
- 10.12 Roedd y dysgwyr a holwyd yn mynychu cyfartaledd o 8.8 awr yr wythnos, a theimlai 8 dysgwr bod hyn yn iawn. Dywedodd 8 dysgwr arall bod hyn yn rhy ychydig, gyda dim ond pedwar dysgwr yn dweud ei fod yn ormod o oriau.

10.13 Roedd rhai o'r mannau lle mae myfyrwyr yn defnyddio Cymraeg/Saesneg y tu allan i'r dosbarth yn cynnwys meddygon, gartref, yn y siopau, wrth siarad â ffrindiau, gyda'u plant ac yn yr holl weithgareddau o ddydd i ddydd.

11. Atodiad D – Adroddiad mapio'r ddarpariaeth ESOL bresennol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno nodweddion allweddol y ddarpariaeth ESOL yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Rhennir yr adran ar gyfer pob awdurdod lleol yn dair rhan:

- Gallu Saesneg preswylwyr awdurdod lleol
- Disgrifiad o'r ddarpariaeth ESOL sydd ar gael yn yr awdurdod lleol
- Crynodeb o'r nodau dysgu a gyflawnwyd ar bob lefel ESOL

Cyflwynir gallu Saesneg preswylwyr awdurdod lleol mewn tabl, ar sail cyfrifiad 2011. Mae'r tabl yn nodi'r nifer o breswylwyr ym mhob awdurdod lleol ar bob lefel o allu Saesneg, wedi eu rhannu yn ôl rhyw. Rhoddir canrannau hefyd, wedi eu cyfrifo fel y ganran o holl breswylwyr yr awdurdod lleol yn y grŵp rhyw hwnnw.

Dylid nodi nad yw'r data o gyfrifiad 2011 yn cynnwys effaith digwyddiadau mwy diweddar fel Brexit a'r symud ac ailsefydlu diweddar ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches o Syria, Afghanistan ac Wcráin.

Mae'r disgrifiad o ddarpariaeth ESOL sydd ar gael yn ardal yr awdurdod lleol yn seiliedig ar ddwy ffynhonnell: arolwg o ddarparwyr ESOL ac ymchwil desg i ddynodi'r bylchau yn y ddarpariaeth yn yr ymatebion i'r arolwg. Mae'n bwysig nodi na fydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth am yr holl ddarparwyr ym mhob awdurdod lleol. Ond, mae'r data yn arddangos rhai o'r elfennau tebyg a'r amrywiadau yn y ddarpariaeth ESOL rhwng awdurdodau lleol.

Mae'r crynodeb o nodau dysgu yn seiliedig ar ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer dysgwyr sy'n byw yn ardal pob awdurdod lleol, yn y blynyddoedd 2020/21, y flwyddyn fwyaf diweddar sydd ar gael ar gyfer y math hwn o ddadansoddiad. Oherwydd y ffyrdd y mae'r ddarpariaeth ESOL yn cael ei chofnodi ar y Cofnod, mae'r rhifau wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf, ac mae unrhyw rifau is na 5 yn cael eu hanwybyddu a'u disodli gan '*'. Mae hyn yn golygu hefyd nad yw o angenrheidrwydd yn cynnig darlun cynhwysfawr, yn arbennig gan fod modelau cwricwlwm darparwyr yn amrywio o ran y nifer o nodau dysgu y mae dysgwyr yn cael eu cofrestru arnynt. Yn ychwanegol, ni all ddarpariaeth wedi ei hachredu nad yw'n arwain at gymhwyster ESOL ond y mae dysgwyr ag anghenion ESOL yn eu mynychu gael ei hadnabod, ac yn yr un modd efallai na fydd rhywfaint o ddysgu heb ei achredu sy'n ymdrin ag anghenion ESOL yn weladwy yn y data. Ond mae'r data yn rhoi rhyw syniad o'r gymhariaeth rhwng cyfanswm y ddarpariaeth ESOL sy'n cael ei chyflwyno ym mhob awdurdod lleol.

